Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Adroddiad Blynyddol

2009-10

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Confensiynau a byrfoddau
Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill – 31 Mawrth) 2009-10
Blwyddyn Academaidd
(1 Awst – 31 Gorffennaf) 2009/10
AU – addysg uwch
SAUau – sefydliadau addysg uwch
SABau – sefydliadau addysg bellach
CALl – cyfwerth ag amser llawn

I gael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn, neu gopi mewn fformat gwahanol, e-bostiwch **info@hefcw.ac.uk** neu llwythwch gopïau i lawr o **www.hefcw.ac.uk.**

Nodiadau ar gyrraedd y targedau yn Ymgeisio'n Uwch:
Cafodd strategaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, ei chyhoeddi yn ystod y flwyddyn adrodd. Yn y ddogfen, dangoswn, am y tro olaf, mannau cychwyn a gorffen y targedau yn *Ymgeisio'n Uwch,* sy'n ymwneud â strategaeth flaenorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch.

© *Hawlfraint CCAUC 2010*
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd.

Cynnwys

Gweledigaeth CCAUC	5
Datganiad y Cadeirydd	6
Datganiad y Prif Weithredwr	7
Addysg uwch yng Nghymru – cyllido	8
Addysg uwch yng Nghymru – cofrestriadau	12
Cynnydd yn erbyn y nodau strategol craidd	
Ehangu mynediad	15
Y fargen i fyfyrwyr	19
Ymchwil	24
Sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth	26
Ailgyflunio, cydweithio, a'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru	30
Llywodraethu ac ymwneud	31
CCAUC fel corff	35
Pwyllgorau CCAUC	37
Cyngor CCAUC	38
Datganiadau ariannol cryno	41

Ynghylch CCAUC

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Sefydlwyd CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gweinyddwn y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru, a rhai cyrsiau AU a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach. Rydym yn gyfrifol am hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), gan gynnwys achredu darparwyr HCA, o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Ein gweledigaeth

Dymunwn ddatblygu a chynnal addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Ein Cenhadaeth

Defnyddiwn adnoddau a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill mewn ffordd strategol i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru

Er mwyn

- cynyddu cyfiawnder cymdeithasol, a
- chefnogi economi bywiog.

Yn flaenorol, rydym wedi adrodd ar gynnydd yn erbyn saith maes strategol. I gydnabod cyflymder y newidiadau mewn addysg uwch, ac i aros mor gyfoes â phosibl, rydym wedi grwpio ein gweithredoedd yn ystod y flwyddyn adrodd – y flwyddyn ariannol 2009-10 – yn erbyn y penawdau yn ein Strategaeth Gorfforaethol ddiweddaraf, sydd ar gael yn **www.hefcw.ac.uk / Cyhoeddiadau / Dogfennau Corfforaethol / Strategaeth Gorfforaethol.**

Datganiad y Cadeirydd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth a chynllun ar gyfer addysg uwch yn yr 21ain ganrif, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, yn ystod y cyfnod adrodd. Esgorodd hon ar gyfnod newydd i addysg uwch yng Nghymru, a chafwyd newidiadau pellach wrth i ni groesawu Leighton Andrews AC i'w swydd fel Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Un o nifer o gamau pwysig a gymerwyd ganddo yn fuan ar ôl dechrau oedd cyhoeddi adolygiad o'r strwythurau llywodraethu mewn prifysgolion, ac edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn y broses hon yn ystod y misoedd i ddod.

Er i lawer o'n blaenoriaethau barhau'r un fath i raddau helaeth yn ystod y cyfnod adrodd, mae lansio *Er Mwyn Ein Dyfodol* wedi rhoi iddynt ffocws mwy penodol ac wedi cyflymu'r broses o'u cyflawni. Mae dwy flaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog, bellach wedi'u hymgorffori'n gadarn yn ein holl flaenoriaethau a strategaethau, ac mae ein Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2010-11 i 2012-13 yn gosod rhai targedau heriol.

Bu eleni'n flwyddyn ddyrys i addysg uwch yng Nghymru. Fel cyrff eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus, bu prifysgolion yn cynllunio ar adeg o gryn ansicrwydd ariannol, gyda'r disgwyl y bydd trefniadau newydd yng Nghymru i reoli'r nifer o israddedigion amser-llawn. Ond credwn, drwy ganolbwyntio ein cyllid mewn meysydd a all wneud gwir wahaniaeth i Gymru – megis newid siâp y sector AU, adeiladu ein sylfaen ymchwil, ehangu mynediad i AU, datblygu dimensiwn rhanbarthol i gyflwyno AU, ac atgyfnerthu delwedd Cymru fel lle deniadol i astudio – y bydd addysg uwch yn cael ei chryfhau, yn dangos gwydnwch ac, yn fwy na hynny, yn symud yn ei blaen. Rydym eisoes wedi croesawu ymrwymiad Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin i gryfhau addysg uwch yng ngorllewin Cymru wrth greu Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant.

> y bydd addysg uwch yn cael ei chryfhau, yn dangos gwydnwch ac, yn fwy na hynny, yn symud yn ei blaen

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Cyngor ac i'n hadran weithredol, sydd wedi ymateb fel mater o frys i sialensiau Er Mwyn Ein Dyfodol. Rwyf yn ddiolchgar iawn am gyfraniad yr aelodau y daeth eu cyfnodau i ben, ac i'n haelodau newydd. Roeddwn yn falch bod yr Adolygiad Sicrwydd Llywodraethu o'n gwaith ni a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y llynedd yn adlewyrchu gwaith caled y corff.

Roger Thomas, OBE
Medi 2010

Datganiad y Prif Weithredwr

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn gosod cryn her i'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru, ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae angen i ni yn awr feddwl yn nhermau *system* addysg uwch, lle y mae prifysgolion a cholegau addysg bellach yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd integredig a chyda dealltwriaeth glir o sut y mae pob sefydliad yn cyfrannu i'r system yn ei chyfanrwydd yn unigol a thrwy gydweithio, ar raddfa ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

Yn ein *Strategaeth Gorfforaethol* newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, amlinellir sut yr ydym yn bwriadu cefnogi darparwyr addysg uwch er mwyn cyflawni'r nodau yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Gwnaed cryn gynnydd eisoes gyda rhai o'r mesurau hyn, megis datblygu'r *Coleg Ffederal*, a fydd yn ehangu ymhellach y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, a sefydlu Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd yn Ne Cymru, a fydd yn gwneud AU yn fwy hygyrch o fewn rhaglen ehangach o waith i adfywio un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Hefyd mae gwaith gyda'n cyd gyrff cyllido AU yn y DU ar y fframwaith newydd ar gyfer asesu rhagoriaeth ymchwil yn mynd rhagddo'n dda.

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd sefydliadau AU yng Nghymru yn gryf i'r argyfwng economaidd. Drwy ein Menter Cymorth Economaidd buddsoddwyd dros £2 filiwn yn ein prifysgolion i'w galluogi i helpu gweithwyr, cwmnïau a graddedigion yn ystod y dirwasgiad economaidd. Parhaodd prifysgolion Cymru i wneud yn dda yn yr arolwg blynyddol sy'n dangos sut y maent hwy'n gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes. Hefyd roedd yn bleser gennym lansio'r Cynllun Arian Cyfatebol newydd, lle y rhoddir arian cyhoeddus cyfatebol am roddion a roddir i brifysgolion, ac sydd wedi cael ei gofleidio'n gyflym ganddynt.

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd sefydliadau AU yng Nghymru yn gryf i'r argyfwng economaidd.

Yn sgil y sialensiau yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, a Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog a ddilynodd ym mis Mawrth 2010, buom yn ailystyried yn ofalus ein dulliau cyllido a disgwyliadau ynghylch cyflymder cyflwyno newid. Yn ystod y misoedd ers mis Mawrth, rydym wedi gweithio gydag aelodau'r Cyngor i ddatblygu a chyhoeddi cynigion (rhai'n bendant, eraill yn parhau'n destun ymgynghori) ar, ymhlith pethau eraill, strategaethau rhanbarthol ar gyfer cynllunio a chyflwyno addysg uwch, Graddau Sylfaen a ddarperir gan bartneriaethau, rheoli niferoedd o israddedigion amser-llawn, a newidiadau sylweddol i'r system cyllido addysg uwch yng Nghymru.

Gan fod *Er Mwyn Ein Dyfodol* bellach wedi'i lansio, hwn fydd yr Adroddiad Blynyddol olaf lle y byddwn yn dangos cynnydd yn erbyn y targedau yn strategaeth flaenorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer AU, *Ymgeisio'n Uwch*. Fel y dangosir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, mae cynnydd da iawn yn erbyn rhai o'r targedau yn Ymgeisio'n Uwch yn cael eu gwrthbwyso gan eraill sy'n parhau'n heriol. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr addysg uwch, drwy gyfnod anodd ond gweddnewidiol, i ddatblygu cyfundrefn addysg uwch gynaliadwy o safon ryngwladol yng Nghymru er lles pobl Cymru.

Yr Athro Philip Gummett
Medi 2010

Y sector addysg uwch yng Nghymru yn 2009-10

cyllid gan CCAUC. Dyraniadau Cyllid Fformiwla 2009/10

Sefydliad	Cyfanswm cyllid fformiwla ar gyfer addysgu	Ymchwil (QR) a (RIF)	Dyraniadau o'r gronfa trydedd genhadaeth	Ymchwil ôl-radd	Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	49,967,101	3,052,362	1,217,588	300,404	54,537,455
Prifysgol Aberystwyth	25,279,098	7,518,011	496,507	441,153	33,734,769
Prifysgol Bangor	23,732,378	7,791,036	754,208	647,864	32,925,486
Prifysgol Caerdydd	69,723,819	39,599,827	1,305,772	3,010,277	113,639,695
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	4,024,195	911,638	164,225	84,313	5,184,371
Prifysgol Abertawe	28,545,330	12,635,219	1,328,645	907,492	43,416,686
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	27,536,562	1,509,719	473,532	154,744	29,674,557
Prifysgol Cymru, Casnewydd	17,400,875	559,207	259,987	13,797	18,233,866
Prifysgol Glyndŵr	15,257,059	298,937	224,230	38,794	15,819,020
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	12,250,378	252,226	206,600	36,791	12,745,995
Coleg Prifysgol y Drindod	8,495,168	0	160,505	0	8,655,673
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	0	363,328	0	0	363,328
Coleg Sir Gâr	1,136,879	0		0	1,136,879
Coleg Llandrillo Cymru	1,301,130	0		0	1,301,130
Coleg Abertawe	26,799	0		0	26,799
Coleg Castell-nedd Port Talbot	125,361	0		0	125,361
Coleg Pen-y-bont	76,671	0		0	76,671
Cyfanswm	**284,878,806**	**74,491,509**	**6,591,799**	**5,635,626**	**371,597,740**

*Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Cyllido addysg uwch

Derbyniwn ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail blwyddyn ariannol (BAr) (1 Ebrill hyd 31 Mawrth), ond dyrannwn y rhan fwyaf o'n cyllid ar sail blwyddyn academaidd (BAc) (1 Awst hyd 31 Gorffennaf).

- Fel rheol cyhoeddwn ein grant blynyddol i sefydliadau addysg uwch ym mis Mawrth bob blwyddyn.
- Yn 2009/10 buom yn ymgynghori ac yn adrodd yn ôl ar newidiadau i drefniadau cyllido CCAUC.

Dyraniadau cyllid fformiwla

Cyhoeddwyd dyraniadau grant o dros **£410 miliwn** ar gyfer addysg uwch yn y Flwyddyn Academaidd 2009/10. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyllid rhaglen reolaidd o **£402.4 miliwn**
- cyllid rhaglen o **£7.66 miliwn** i'r Brifysgol Agored.

Cyhoeddwyd **£63 miliwn** yn ychwanegol yn y Flwyddyn Ariannol 2009–10, a oedd yn cynnwys:

- **£34.6 miliwn** i gefnogi amcanion Ymgeisio'n Uwch
- cyllid cyfalaf o **£28.7 miliwn.**

Dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009/10

Cafodd **£372 filiwn** o'r swm hwn ei roi ar ffurf grant fformiwla (prif ffrwd) i'r sector addysg uwch ar gyfer addysgu, trydedd genhadaeth, ymchwil, a hyfforddiant ymchwil ôl-radd. Roedd hyn yn cynnwys:

- **£284.8 miliwn** ar gyfer addysgu
- **£74.49 miliwn** ar gyfer ymchwil
- **£5.56 miliwn** ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd
- **£6.59 miliwn** ar gyfer trydedd genhadaeth (gweithgareddau arloesedd ac ymwneud)

Cyllid Ymgeisio'n Uwch ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009–10

O dan *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, darparwyd:

- **£17.6 miliwn** i gefnogi ailgyflunio a chydweithio yn y sector
- **£8.3 miliwn** i gefnogi ymrwymiadau Cymru'n Un
- **£2.1 filiwn** ar gyfer ehangu mynediad a
- **£6.8 miliwn** ar gyfer cyllid cyfalaf Ymgeisio'n Uwch.

.

Cyllid CCAUC ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2009/10

Gwaelodlin

Rheolaidd	2009/10
Grant ar gyfer addysgu	**(£)**
Prif grant fformiwla	272,297,253
Y pen	4,705,542
Premiwm ehangu mynediad	5,613,200
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,400,851
Premiwm anabledd	880,660
Is-gyfanswm	**284,878,806**
Cyllid rhan-amser Graham	6,400,000
Cyllid rheolaidd y Brifysgol Agored	7,662,000
Credydau wedi'u cyllido strategol	94,149
Cyfanswm	**299,053,655**
Grant ar gyfer ymchwil	
Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY): Grant wedi'i seilio ar ansawdd	74,491,509
Ymchwil ôl-radd	5,635,626
Cynlluniau - Cymru	
Bwrdd Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Cymru	160,775
Gwasg Prifysgol Cymru	132,042
Cynlluniau - y DU	
Cynllun Gwobrau Myfyrwyr Ymchwil Tramor (ORSAS)	358,250
Rhaglen Llyfrgelloedd Cefnogi Ymchwil (RSLP)	
Rhwydwaith Llyfrgelloedd Ymchwil (RLN)	50,000
Cyfanswm	**80,798,204**
Strategaeth a chynlluniau	
Strategaeth a chynlluniau	21,354,191
Cronfa amrywiol y Prif Weithredwr	400,000
Cyfanswm	**21,754,191**

Trydedd genhadaeth	
Go Wales	1,809,543
Cwmnïau deilliedig (Spinout)	250,000
Cronfa trydedd genhadaeth	6,591,799
Cyfanswm	**8,450,584**
Cyfanswm Cyllid Rheolaidd	**410,056,634**
Cyfalaf (dyrannwyd ar sail BAr)	
Ymchwil	10,762,000
Addysgu	17,983,000
Cyfanswm	**28,745,000**

Uwchben y waelodlin

Cyllid Strategaeth AU Llywodraeth Cynulliad Cymru	
Blwyddyn Ariannol	**2008-09**
Ailgyflunio a chydweithio	12,464,175
Ehangu mynediad	2,085,825
Cyllid cyfalaf *Ymgeisio'n Uwch*	6,760,000
Ailgyflunio hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA)	4,986,050
Ymrwymiadau *Cymru'n Un*	8,318,000
Cyfanswm	**34,614,050**

Cofrestriadau yn ôl lefel



Cofrestriadau yn ôl lefel a modd



Cofrestriadau yn ôl modd



Y sector addysg uwch yng Nghymru yn 2008-09

Data am fyfyrwyr

Cofrestriadau yn ôl sefydliad, lefel a modd 2008/09

	Israddedigion gradd		Israddedigion - nid gradd		Israddedigion(IR)	
	Amser-llawn	Rhyngosod	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser (heb gynnwys ffranseis)	Rhan-Amser (Ffranseis)
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0	4,806	0
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,904	0	271	0	2,136	1,519
Prifysgol Glyndŵr	2,332	0	277	0	3,650	539
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,985	56	604	1	765	67
Prifysgol Morgannwg	9,372	71	1,648	0	4,257	1,868
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	2,552	0	323	0	1,436	0
Coleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin	1,052	0	0	0	699	0
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,062	0	78	0	2,113	7
Prifysgol Aberystwyth	5,814	59	113	21	2,001	37
Prifysgol Bangor	5,941	24	114	0	1,089	48
Prifysgol Caerdydd	15,671	301	95	0	4,926	0
Prifysgol Abertawe	9,023	47	126	0	1,984	0
Coleg Pen-y-bont	0	0	30	0	1	0
Coleg Sir Gâr	222	0	0	0	85	0
Coleg Llandrillo	111	0	203	0	391	0
Coleg Abertawe	0	0	4	0	5	0
Coleg Menai	0	0	0	0	10	0
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	21	0	49	0
Cyfanswm	62,040	558	3,906	22	30,403	4,085

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2008/09

Nodiadau: **1** Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1

2 Cynhwysir cofrestriadau cyllidadwy, anghyllidadwy, tramor ac ynysoedd

3 Mae Ffranseis yn cynnwys israddedigion rhan-amser yn unig

4 Mae Israddedigion rhan-amser yn cynnwys cofrestriadau gradd ac nid gradd

5 Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

Ôl-radd aaddysgir			Ymchwil Ôl-radd			
Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Cyfanswm
0	0	344	0	0	0	5,150
412	0	1,086	27	0	24	8,379
421	0	332	38	0	32	7,621
799	0	487	130	0	114	9,008
1,205	0	1,701	177	0	242	20,540
413	0	611	16	0	48	5,399
104	0	80	0	0	0	1,935
568	0	563	86	0	111	4,588
516	0	740	215	0	79	9,595
801	0	822	426	0	136	9,400
2,170	0	2,949	1,237	0	240	27,589
776	0	609	449	0	127	13,141
0	0	0	0	0	0	31
0	0	0	0	0	0	307
0	0	0	0	0	0	705
0	0	0	0	0	0	9
0	0	0	0	0	0	10
0	0	0	0	0	0	70
8,184	0	10,324	2,801	0	1,153	123,476

Ehangu mynediad

Mae cyfiawnder cymdeithasol yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Gall prifysgolion wneud cyfraniad pwysig at y nod hwn drwy ehangu mynediad i addysg uwch.

Mae ein nodau'n cynnwys:

- cynyddu mynediad i AU i'r rheiny a all elwa arni
- sicrhau bod cyfraddau cadw'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU
- hybu gweithgareddau ehangu mynediad cydlynol a rhannu arfer da ar draws Cymru
- annog plant mewn gofal ac ymadawyr gofal i ystyried cyfleoedd mewn AU.

Bob blwyddyn, gweithiwn gyda sefydliadau addysg uwch sy'n:

- rhedeg cynlluniau i annog pobl o bob oedran i wella eu sgiliau a chymryd rhan mewn AU beth bynnag yw eu cefndir. O fewn y cynllun *Ymgyrraedd yn Ehangach*, yn benodol, ceir rhaglenni sy'n ehangu mynediad, yn hybu gweithgareddau a gydlynir ar raddfa ranbarthol, ac yn rhannu arfer da ar gyfer grwpiau targed sydd yn draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU: pobl o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf[1], grwpiau du ac ethnig lleiafrifol, pobl anabl, a'r rheiny sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- derbyn rhagor o gyllid i gydnabod y costau ychwanegol a all godi os bydd angen darparu cymorth ychwanegol ar gyfer rhai myfyrwyr, megis meithrin sgiliau neu fagu hyder, cyn iddynt gychwyn ar gwrs AU, neu i gadw myfyrwyr ar eu cyrsiau lle nad oes fawr ddim traddodiad o gymryd rhan mewn addysg uwch.
- derbyn cyllid ychwanegol pellach – cyllid 'premiwm' – am recriwtio myfyrwyr o Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac o ardaloedd eraill lle y mae cyfranogiad yn isel, myfyrwyr â chymwysterau anhraddodiadol a myfyrwyr sy'n derbyn lwfans myfyrwyr anabl.
- cynhyrchu strategaethau i ehangu mynediad i AU a chynyddu darpariaeth i fyfyrwyr anabl.
- darparu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, sy'n cynghori ein Cyngor ar bolisi yn y maes hwn.
- derbyn eu cyllid ar gyfer addysgu ar sail credydau er mwyn cefnogi dysgu hyblyg mewn sefydliadau addysg uwch a hwyluso dilyniant rhwng addysg bellach ac uwch.

Yn 2009–10:

- Dyrannwyd £220 yn ychwanegol am bob myfyriwr cymwys ar gyfer ehangu mynediad a pharhawyd i dalu'r premiwm ychwanegol, wedi'i osod ar £220 hefyd, am bob myfyriwr cymwys o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Derbyniodd SAUau tua £2 filiwn ar gyfer y cynllun *Ymgyrraedd yn Ehangach*, £1.87 miliwn i weithredu strategaethau ehangu mynediad, a £6.4 miliwn ar gyfer cyllid premiwm ehangu mynediad (gan gynnwys cyllid wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr Cymunedau'n Gyntaf a myfyrwyr eraill o ardaloedd cyfranogiad isel, a myfyrwyr â chymwysterau anhraddodiadol).
- Derbyniodd y sefydliadau £220 yn ychwanegol am bob myfyriwr anabl cymwys, a dyrannwyd cyfanswm o dros £0.9 miliwn yn y maes hwn.
- Dangosodd ffigurau ar gyfer y DU gyfan fod prifysgolion a cholegau Cymru yn parhau i wneud yn dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd gan y sector addysg uwch Gymreig gyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU o'u cymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08 yn dangos cyflawniadau'r sector AU Cymreig ym maes ehangu mynediad, a chafwyd llwyddiant arbennig

[1] *Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadiad Lluosol Cymru.*

wrth recriwtio israddedigion amser-llawn a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl, ac israddedigion amser-llawn ifanc o ysgolion y wladwriaeth.

- Cyhoeddwyd gwybodaeth am y cymorth a roddir gan sefydliadau addysg uwch i blant mewn gofal ac ymadawyr gofal, gan gynnwys enghreifftiau o arfer effeithiol. Mae pob prifysgol yng Nghymru bellach wedi ennill Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch. Mae'r Nod Ansawdd yn cydnabod ymrwymiad prifysgolion i ddarparu cymorth a chyllid ychwanegol i bobl o bob oedran sydd â chefndir gofal, ac yn tynnu sylw at sefydliadau sydd wedi gwella sgiliau academaidd ymadawyr gofal i'w galluogi i lwyddo yn yr ysgol, coleg a phrifysgol.
- Cyhoeddwyd adroddiad ar ganlyniadau allweddol ein hymchwil i gymorth ar gyfer myfyrwyr anabl yn y sector AU yng Nghymru. Cafwyd darlun cyffredinol o'r cynnydd y mae'r sector wedi'i wneud ers cyhoeddi ein harweiniad ym 1999, ac o arferion da a meysydd i'w datblygu.
- Cyhoeddwyd gwybodaeth am ehangu mynediad i addysg uwch i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac enghreifftiau o arfer effeithiol wrth ddarparu cymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Defnyddiwyd arian o'n Cronfa Datblygu Strategol i fwrw ymlaen â phrosiect Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI), a rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb i ni dros gyllido niferoedd ychwanegol o fyfyrwyr ar gyfer yr Athrofa.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Ar ôl derbyn arweiniad pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn sgil cyhoeddi adolygiad Merfyn Jones o AU: • adolygu cyfraniad *Ymgyrraedd yn Ehangach* at gyflawni polisïau a thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a • mynd â chynigion ac argymhellion cychwynnol gerbron y Cyngor ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru, erbyn mis Mawrth 2010, ar gyfer mesurau a all roi gwedd newydd i bolisi ehangu mynediad, gan gynnwys *Ymgyrraedd yn Ehangach.*	Ymhellach i adolygiad Jones, Datganiad 2009 y Gweinidog Addysg, a Strategaeth a Chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer AU, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, adolygwyd *Ymgyrraedd yn Ehangach*, gan gynnwys drwy gyfarfod deialog ar gyfer y sector addysg uwch a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2009 a chyfarfod gyda Chadeiryddion y partneriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach*. Fodd bynnag, cafodd y dasg o adrodd ar hyn i'r Cyngor ac APADGOS erbyn mis Mawrth 2010 ei disodli gan ofynion *Er Mwyn Ein Dyfodol*.
Wrth fwrw ymlaen â strategaethau ehangu mynediad a chynigion *Ymgyrraedd yn Ehangach* am flwyddyn bellach, a chymryd i ystyriaeth adolygiad Merfyn Jones o AU ac adolygiadau'r Academi Addysg Uwch: • ymchwilio ac adrodd i APADGOS ar y mesurau ychwanegol y gallai fod angen eu cyflwyno i wella ehangu mynediad erbyn mis Mawrth 2010.	Fel uchod.
Yn sgil adolygiad Merfyn Jones o AU: • ymchwilio gyda'r sector a chyflwyno argymhellion cychwynnol i APADGOS ar fesurau a all wella cyfraddau cadw myfyrwyr ar draws Cymru, gan gynnwys sut y gallai CCAUC sicrhau bod y sector yn datblygu llwybrau pendant ac effeithiol i AU o lwybrau galwedigaethol ac anhraddodiadol eraill (gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith) erbyn mis Mawrth 2010.	Wedi'i gynnwys yn y cyngor i'r Gweinidog ar ehangu mynediad mewn perthynas â materion yn y llythyr cylch gwaith, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2010. Byddid yn gwneud gwaith pellach yn sgil *Er Mwyn Ein Dyfodol*, gan gynnwys cynnal digwyddiad yn ymwneud â chadw myfyrwyr, wedi'i drefnu gan yr Academi Addysg Uwch, ym mis Mai 2010 i helpu'r sector i wella cyfraddau cadw ymhellach ac i rannu arfer effeithiol gyda, a rhwng, gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU.

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Merfyn Jones o AU: • cyflwyno cyngor cychwynnol i APADGOS ar wahanol ffyrdd o fynd i'r afael â'r sialensiau a chyfleoedd sy'n codi yn sgil newid demograffig.	**Cyflawnwyd.** Cyflwynwyd cyngor i'r Gweinidog (Ionawr 2010) mewn ymateb i ofynion llythyr cylch gwaith 2009-10. Bwriwyd ymlaen â hyn fel y nodir yn y cyngor a roddwyd mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith y cyfeirir ato uchod.
Cyflwyno argymhellion i APADGOS ar strategaethau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer cynyddu 'cytgord' rhwng polisïau CCAUC a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Addysg Oedolion a Chymunedol (AOC) erbyn mis Tachwedd 2009.	Nid yw'n berthnasol bellach. Sut bynnag, cynhwyswyd y mater hwn yn y cyngor mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith (gweler uchod) a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2010. Rydym yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion AOC i sicrhau y gall AU chwarae rhan lawn. Roedd y 17 cynnig AOC yn cynnwys cynigion gan yr holl sefydliadau AU a buom yn eu hannog yn gryf, yn eu strategaethau ehangu mynediad, i barhau i gymryd datblygiadau AOC i ystyriaeth yn eu cynllunio rhanbarthol ac i chwarae rhan lawn. Cyfrannodd y sector AU at y gynhadledd AOC a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2010.
Erbyn mis Rhagfyr 2009: • rhoi cyngor i APADGOS ar gamau i ymdrin â'r cwestiwn o gostau cudd cyrsiau a sicrhau bod sefydliadau AU yn cyfleu'r rhain yn glir i ddarpar fyfyrwyr.	**Cyflawnwyd** Cyflwynwyd cyngor fel rhan o'r cyngor ar ehangu mynediad, mewn ymateb i'r llythyr cylch gwaith, ym mis Ionawr 2010.
Gan adeiladu ar waith cynharach CCAUC: • cyfrannu, o bersbectif AU, at ymgynghoriad arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Strategaeth Plant Bregus (gyda phwyslais arbennig ar blant mewn gofal) erbyn mis Mawrth 2010.	Nid yw'n berthnasol bellach.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Ehangu Mynediad

Canran yr holl **israddedigion newydd o Gymru ar gyrsiau AU** mewn sefydliadau AU neu AB (SAUau / SABau) yn y DU **sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru** i godi o **8.9% yn 2000/01 i 11.4% erbyn 2010/11.**

	2000/01			2007/08		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
Sefydliadau AU Cymru	2,733	26,848	10.2%	3,467	30,031	11.5%
Sefydliadau AU ac AB y DU	3,484	39,056	8.9%	4,292	42,825	10.5%
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	2.0% - 15.8%			3.9% - 15.8%		

Mae'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cyfateb i'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadiad Lluosol Cymru. Myfyrwyr sy'n byw o fewn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r rheiny y mae eu codau post cartref o fewn un o'r ardaloedd hyn.

Mae'r canran o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi'i gyfrifo ar sail myfyrwyr o Gymru yn y sefydliad y mae eu wardiau'n hysbys.

Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu cod post cartref yng Nghymru.

Cynhwysir pob modd astudio.

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr newydd gan yr AYAU yn 2007/08, felly dylai unrhyw gymariaethau â blynyddoedd cynharach mewn adroddiadau blynyddol blaenorol gael eu gwneud â gofal.

Y Fargen i Fyfyrwyr

Mae canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, ac arolygon o brofiad myfyrwyr tramor yng Nghymru, yn dangos bod Cymru'n rhoi blaenoriaeth i addysgu rhagorol a phrofiad myfyrwyr o ansawdd uchel.

Rydym ni'n gyfrifol am sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a gyllidir yn y sefydliadau yn cael ei asesu ac am helpu'r sector AU yng Nghymru i gyrraedd ei darged ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sef bod 7% o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn cymryd peth o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein nod yw:

- Gweld sector AU yng Nghymru sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU a gwledydd tramor o ran darparu dysgu ac addysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys drwy sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a gyllidir mewn sefydliadau AU yn cael ei asesu.

Bob blwyddyn, gweithiwn gyda sefydliadau addysg uwch:

- sy'n derbyn cyllid i weithredu strategaethau dysgu ac addysgu a rhannu arfer da, ac i gofleidio technoleg newydd i atgyfnerthu profiad myfyrwyr mewn addysg uwch.
- y caiff eu safonau ac ansawdd eu hasesu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA/QAA).
- sy'n cael cymorth gan yr Academi Addysg Uwch i wella ansawdd a safonau.
- sy'n derbyn cyllid i gynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- sy'n darparu aelodau ar gyfer ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd, a'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud, sy'n cynghori'r Cyngor ar faterion polisi yn y maes hwn.
- i weithredu'r cynllun cyflogadwyedd graddedigion, GO Wales.
- a chydag Uned Ewrop AU y DU ar gyfleoedd yn yr Undeb Ewropeaidd, Uned Ryngwladol y DU ar gyfleoedd rhyngwladol ar gyfer sefydliadau AU yng Nghymru, a chyda Chonsortiwm Rhyngwladol Cymru ar faterion rhyngwladol.
- a'r Cynghorau Sgiliau Sector i ymateb i faterion ym maes ymgysylltu â chyflogwyr, gan ganolbwyntio ar sgiliau lefel uwch.

Yn 2009-10:

- Sefydlwyd y Bwrdd Gweithredu i roi yn eu lle y trefniadau ar gyfer y Coleg Ffederal Cyfrwng Cymraeg, a fyddai'n cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Sefydlwyd y Bwrdd Gweithredu yn sgil adroddiad yr Athro Robin Williams i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009, a gynigiodd fodel ar gyfer y Coleg Ffederal. Byddai'r Bwrdd newydd yn datblygu trefniadau ar gyfer: ymdrin â chyllid; ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg; strwythur rheoli a staffio'r Coleg Ffederal; a phenodi a throsglwyddo'r awenau i Gyngor Cenedlaethol newydd y Coleg Ffederal yn 2011.
- Buom yn gweithio gyda'r ASA i weithredu proses adolygu sefydliadol newydd a threfn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ansawdd anfoddhaol posibl yn sefydliadau Cymru.
- Cadarnhawyd y byddai £1.02 filiwn ar gael i gefnogi strategaethau dysgu ac addysgu'r sefydliadau.
- Cafodd taliadau ychwanegol eu gwneud ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dosbarthwyd tua £1.4 miliwn drwy'r dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg hyn.
- Gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, buom yn cefnogi Consortiwm Rhyngwladol Cymru mewn dirprwyaeth lefel uchel i India ym mis Mawrth 2010, gan adrodd yn ôl i'n Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud a thynnu sylw at gyfleoedd gwerthfawr ym meysydd ymchwil ac arloesedd ar gyfer y sector AU a busnesau Cymreig.

- Fel rhan o ddirprwyaeth o Gymdeithas Gweinyddwyr Prifysgol y DU, arweiniasom dîm a fu'n ystyried ac yn adrodd ar drefniadau llywodraethu a rheoli'r sector AU yn India, ac a dynnodd sylw at gyfleoedd a sialensiau pwysig ar gyfer sector AU y DU gyfan.
- Yn arolwg 2009 Uned Ewrop AU y DU o ymwneud sefydliadau AU â Phroses Bologna, sy'n helpu i gysoni safonau graddau academaidd a safonau sicrhau ansawdd ar draws Ewrop, tynnwyd sylw at sawl maes lle y mae Cymru'n gwneud yn well na gweddill y DU, gan gynnwys:
  - Cyfradd ymateb o 83% gan sefydliadau AU Cymru, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 59% ar gyfer y DU.
  - Roedd 80% o sefydliadau AU yn defnyddio'r System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd (ECTS) yng Nghymru, o'i gymharu â 78% yn yr Alban a 50% yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
  - Roedd gan 80% o sefydliadau AU fesurau i gefnogi symudedd staff o'i gymharu â 67% yn yr Alban a 73% yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Roedd gan 90% o sefydliadau AU strategaethau rhyngwladol o'i gymharu ag 82% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, tra bo 70% wedi neilltuo cyfrifoldeb i staff neu grŵp ar gyfer materion Bologna, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 58% ar gyfer y DU.
- Croesawyd Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru i'w chyfarfod cyntaf o Gyngor CCAUC fel sylwedydd. Bydd hi hefyd yn parhau â'i rôl ar ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd.
- Cymeradwywyd cyfraniad o £2.738 miliwn gan CCAUC i'r Cyd-Bwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) (sy'n cefnogi addysg ôl-16 ac addysg uwch ac ymchwil yn y DU) ar gyfer 2009/10.
- Lansiwyd yr ymrwymiad traws-sector *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru* (WISE), a hefyd brosiect newydd o'r enw 'Dweud eich Dweud'. Mae'r prosiect 'Dweud eich Dweud', a gyllidir gan CCAUC, yn rhoi lle canolog i fyfyrwyr mewn datblygiadau AU yng Nghymru drwy recriwtio, hyfforddi a rhoi grym i rwydwaith o fyfyrwyr sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr cwrs. Mae WISE yn cynnwys Addysg Uwch Cymru, CCAUC, yr ASA, yr Academi Addysg Uwch ac NUS Cymru.
- Dangosodd canlyniadau o'r pumed Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC/NSS) fod 83% o'r rheiny a ymatebodd yng Nghymru yn fodlon ar eu cwrs, a bod y canran ar gyfer Cymru yn parhau ychydig yn uwch na hwnnw ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.
- Cyhoeddasom ganllawiau – wedi'u hanelu at uwch reolwyr a staff sy'n ymwneud â marchnata a derbyn myfyrwyr – ar arfer da wrth ddarparu gwybodaeth am gost astudio i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr AU.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Gweithio mewn partneriaeth â'r sector i: • fwrw ymlaen â datblygiadau a all ddilyn o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio Coleg Ffederal, gan gynnwys parhau â rôl CCAUC fel cyllidwr darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	**Cyflawnwyd.** Mae cyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi parhau. Penodwyd Cadeirydd y Bwrdd Gweithredu Coleg Ffederal. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2010.
Cael sylwadau'r sector addysg uwch er mwyn: • cyfrannu at farn CCAUC i'w phorthi i'r gwerthusiad o Fenter 2 y Prif Weinidog (PMI2), a chynnig sylwadau gwybodus i Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Ionawr 2010.	Bu CCAUC yn ymgymryd â thrafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydol 2009, gan roi cyngor a sylwadau. Cynhaliwyd gweithdy Consortiwm Rhyngwladol Cymru (WIC) ar ddechrau 2010 i hybu arfer da a chael cyfraniad academyddion, a thynnwyd sylw at nifer o gynigion llwyddiannus gan sefydliadau AU Cymreig. Bydd PMI2 yn gorffen yn 2011, ac mae cyfleoedd cyllido bellach yn dirwyn i ben. Roedd APADGOS yn fodlon ar gymorth CCAUC, ac ni ddisgwylir unrhyw gyfraniad pellach o dan y dasg benodol hon.

Casglu gwybodaeth ychwanegol gan y corff sy'n cynrychioli Is-Gangellorion, Addysg Uwch Cymru (AUC), a'r sector addysg uwch ar sut y gallai Erasmus Mundus gael ei ddatblygu ymhellach yng Nghymru, a chyflwyno adroddiad ar y dadansoddiad hwnnw ynghyd â chasgliadau priodol i APADGOS erbyn mis Rhagfyr 2009.	**Cyflawnwyd.** Roedd Cymru yn gwneud yn well na gweddill y DU ar y cyfan mewn perthynas ag agweddau ar Erasmus Mundus. Cafodd data am hyn eu rhannu â Llywodraeth Cynulliad Cymru tua diwedd 2009, ac mae gwaith pellach gan CCAUC i hybu perfformiad y sector AU Cymreig wedi cael ei gefnogi gan weithgareddau Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB) a Chonsortiwm Rhyngwladol Cymru.
Ymuno â chyfarfodydd gyda swyddogion APADGOS i'w helpu a'u galluogi i baratoi strategaeth gyffredinol ar gyfer AU ryngwladol yng Nghymru i'w chyflwyno i Weinidogion erbyn mis Mawrth 2010.	Ffurfiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Bwrdd Rhyngwladol AU ym mis Rhagfyr 2009 gyda chynrychiolaeth briodol i oruchwylio datblygu strategaeth ryngwladol i'r sector AU. Yna gofynnodd y Cynulliad i Addysg Uwch Cymru (AUC) arwain ar ddatblygu'r strategaeth gyda chymorth y Bwrdd Rhyngwladol. Rhoddodd CCAUC gyngor ar benodi ymgynghorydd, gyda'r nod o gynhyrchu strategaeth ddrafft erbyn dechrau'r haf 2010.
Gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisi ar raddau sylfaen, ac i gyflwyno darpariaeth sgiliau lefel 4/5.	Roedd gan CCAUC gynrychiolaeth ar Grŵp Gradd Sylfaen Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond fel mae'n digwydd cafodd cynnig AUC ar gyfer gradd sylfaen Cymru-gyfan ei gymeradwyo ar gyfer Cyllid Cydgyfeiriant, y cytunwyd arno gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Medi 2009. Cafodd CCAUC gynrychiolaeth ar grŵp llywio AUC, a dechreuir recriwtio ar gyfer y rhaglen gradd sylfaen ym mis Ionawr 2010. Cafodd ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd drafodaeth strategol ar raddau sylfaen ym mis Mawrth 2010.
Ystyried dulliau o gryfhau cysylltiadau ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, gan gynnwys drwy raglen newydd i roi llais i fyfyrwyr ar faterion ansawdd, i ddechrau ym mis Awst 2009.	**Cyflawnwyd.** Cynigiwyd statws sylwedydd i Lywydd NUS Cymru. Cychwynnwyd rhaglen NUS newydd, 'Dweud eich Dweud', ym mis Awst 2009 a chafodd ei lansio fel rhan o'r fenter aml-asiantaeth, *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru* (WISE), gan y Gweinidog Addysg ym mis Hydref 2009. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng CCAUC ac NUS Cymru. Mae gan NUS Cymru gynrychiolydd hefyd ar ein Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Cyfrwng Cymraeg

Y gyfran o **fyfyrwyr AU o Gymru** yn sefydliadau AU ac AB Cymru sy'n ymgymryd â **rhyw elfen o'u cwrs** drwy gyfrwng y **Gymraeg** i godi o **5.3% yn 2000/01** i **7% yn 2010/11.**

	2000/01			2007/08		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
Sefydliadau AU Cymru	3,473	63,681	5.5%	3,916	72,080	5.4%
Sefydliadau AU ac AB Cymru	3,495	65,800	5.3%	9,977	73,418	5.4%
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	0.0% - 38.0%			0.1 – 52.5%		

Cyfrifir myfyrwyr fel rhai sy'n dilyn rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt wedi'u cofnodi fel myfyrwyr sy'n cymryd modiwl sydd ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes gan unrhyw fodiwlau y maent hwy'n eu cymryd ganran o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n fwy na sero. Cynhwysir cyrsiau ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.

Cynhwysir pob modd astudio.

Ar gyfer 2007/08 yn unig, gwnaed ychydig o addasiadau i'r data cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio cywiriadau a ddarparwyd gan y sefydliadau.

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr newydd gan yr AYAU yn 2007/08, felly dylai unrhyw gymariaethau â blynyddoedd cynharach mewn adroddiadau blynyddol blaenorol gael eu gwneud â gofal.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Cymru fel Cyrchfan Dewis Cyntaf

Y gyfran o'r holl **fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru** wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n **astudio yn sefydliadau AU yng Nghymru** i godi o **60.1% yn 2000/01** i **70% yn 2010/11.**

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn wedi'u cofrestru yn SAUau yng Nghymru, sydd o Gymru

	2000/01			2007/08		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
Sefydliadau AU Cymru	31,772	67,742	46.9%	38,679	80,881	47.8%
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	29.5% - 84.7%			23.6% - 83.5%		

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n astudio mewn SAUau yng Nghymru:

Cyfanswm Sefydliadau AU y DU	31,772	52,882	60.1%	38,679	58,186	66.5%

Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu cod post cartref yng Nghymru. Cynhwysir y moddau astudio amser-llawn a rhyngosod.

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr newydd gan yr AYAU yn 2007/08, felly dylai unrhyw gymariaethau â blynyddoedd cynharach mewn adroddiadau blynyddol blaenorol gael eu gwneud â gofal.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Myfyrwyr tramor

Y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau AU yn sefydliadau AU Cymru i fod yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a De-Ddwyrain Lloegr) erbyn 2010/11.

	2000/01			2007/08		
	Nifer	Cyfanswm	%	Nifer	Cyfanswm	%
Sefydliadau AU Cymru	5,322	109,765	4.8%	14,066	131,511	10.7%
Sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	98,381	1,366,391	7.2%	179,874	1,609,706	11.2%
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	0.5% - 9.5%			1.8 – 20.9 %		

Newid blwyddyn ar flwyddyn

	2000/01 i 2001/02	2006/07 i 2007/08
Cyfanswm Sefydliadau AU Cymru	10.4%	13.1%
Cyfanswm sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a'r D-Ddn)	10.3%	5.2%
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	-7.7% - 97.6%	-12.0% - 51.8%

Cymerir bod myfyrwyr yn fyfyrwyr tramor os nad ydynt yn byw yn yr UE, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw; mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid sy'n dod i mewn.

Cynhwysir pob modd astudio

Cyflwynwyd cofnod myfyrwyr newydd gan yr AYAU yn 2007/08, felly dylai unrhyw gymariaethau â blynyddoedd cynharach mewn adroddiadau blynyddol blaenorol gael eu gwneud â gofal.

Ymchwil

Mae ymchwil yn creu gwybodaeth. Pan gymhwysir y wybodaeth hon, gall greu cyfoeth, a swyddi newydd o safon uchel.
Cyfeiriwn gyllid i helpu i gryfhau ansawdd a maint y sylfaen ymchwil yng Nghymru, ac i gynnal ymchwil rhagorol cynaliadwy sy'n cael ei gydnabod ar hyd a lled y byd. Hefyd rhoddwn gyllid i sefydliadau addysg uwch i'w helpu i ffurfio partneriaethau cydweithiol newydd sy'n cryfhau eu nodau ymchwil unigol. Gwnawn ddefnydd strategol o Gronfa Trydedd Genhadaeth ochr yn ochr â chyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy ei Rhaglen Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes (A4B) er mwyn hwyluso masnacheiddio ffrwyth gwaith ymchwil, gan gynnwys drwy gyfrwng ymchwil rhwng sefydliadau AU a busnesau yng Nghymru.

Ein nodau yw:

- sylfaen ymchwil yng Nghymru o safon sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU ac yn rhyngwladol, ac yr elwir arni'n fwy effeithiol.
- clystyrau ymchwil cynaliadwy ac effeithiol yng Nghymru, drwy sicrhau eu bod yn ddigon mawr a bod ganddynt ystod ddisgyblaethol ddigon eang.
- y sector AU yng Nghymru i sicrhau mwy o incwm ymchwil o ffynonellau heblaw am CCAUC, yn enwedig drwy grantiau Cyngor Ymchwil ac o fasnacheiddio ffrwyth eu hymchwil.
- hybu datblygiad economaidd yng Nghymru drwy ddenu buddsoddwyr o'r tu allan ar sail perthnasedd masnachol arbenigedd ymchwil Cymru.

Bob blwyddyn, gweithiwn gyda'r sector addysg uwch sy'n:

- ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n hybu gwybodaeth ac arfer a, lle y bo'n briodol, yn darparu sylfaen ar gyfer cymhwyso a throsglwyddo gwybodaeth.
- derbyn cyllid CCAUC ar gyfer ymchwil drwy'r ffrwd gyllido QR (Ymchwil o Ansawdd), sy'n gwobrwyo ac yn atgyfnerthu ymchwil rhagorol ar sail canlyniadau'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY).
- hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr drwy ddarparu rhaglenni gradd ymchwil ôl-radd, sy'n derbyn cymorth drwy ffrwd gyllido ymchwil ôl-radd (YOR) CCAUC.
- Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r sector ar ddatblygiadau sy'n cryfhau gallu ymchwil drwy gyfrwng cydweithio, gyda chymorth o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn 2009-10:

- Cyhoeddwyd canlyniadau lefel uchel yr ymgynghoriad gan bedwar corff cyllido AU y DU, a'r camau nesaf i'w cymryd wrth weithredu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, a fydd yn cymryd lle'r Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY).
- Cymeradwywyd £4 miliwn o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ar gyfer y Consortiwm Newid Hinsawdd, sy'n cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Mae'r rhaglen ymchwil yn dwyn ynghyd bron 200 o arbenigwyr yn y pedair prifysgol i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amgylchedd y Ddaear a bywydau pawb.
- Buom hefyd yn gweithio'n agos ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, i weithredu argymhellion Gibson ar *Fasnacheiddio yng Nghymru*, yn enwedig yng nghyd-destun system gefnogi ddeublyg wedi'i darparu drwy Gronfa Trydedd Genhadaeth CCAUC a Rhaglen A4B (Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Ymchwilio gyda'r sector AU i'r posibiliadau o sefydlu rhagor o Ganolfannau Ymchwil Cenedlaethol ar sail cynigion cydweithiol gan sefydliadau AU sydd â phroffil ymchwil cryf, a gwneud argymhellion i Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Ionawr 2010.	Cyflwynwyd cyngor i APADGOS ym mis Ionawr 2010 ar feini prawf priodol ar gyfer Canolfannau Ymchwil Cenedlaethol pellach. Yn ein cyngor, nodwyd bod dau ddatblygiad ymchwil o'r fath eisoes wedi cael eu dynodi a'u cyllido gan CCAUC, drwy gytundeb ag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ac APADGOS: y Sefydliad Ymchwil Cyfrifiaduro Gweledol a Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD).
Cefnogi cynigion o APADGOS (yn enwedig drwy ein haelodaeth o'i grŵp llywio Academi Gwyddoniaeth Genedlaethol (AGG/NSA)) ar gyfer datblygu Academi yn y sector AU, gyda phwyslais arbennig ar y cyflenwad o raddedigion gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), erbyn mis Rhagfyr 2009.	Cafodd cynigion diwygiedig y grŵp llywio AGG eu cyflwyno i'r Gweinidogion ym mis Mawrth 2010, ac yna cafodd trefniadau cyllido eu lansio ar gyfer datblygiadau newydd, a ganolbwyntiai'n bennaf ar ysgolion. Parhaodd CCAUC ar y grŵp llywio.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Incwm ar gyfer ymchwil

A Y canran o gyllid y Cynghorau Ymchwil a ddenir gan sefydliadau AU Cymru i godi o 3.3% i 4.5%.

	2000/01	2007/08
Cyfanswm sefydliadau AU Cymru	£22,915,000	£43,816,000
Cyfanswm y DU	£695,065,000	£1,358,095,000
Cymru fel % o'r DU	3.3%	3.2%

Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.

B Cynnydd o 60% erbyn 2007/08 a 100% erbyn 2010/11 ar y ffigur man cychwyn o £55.6 miliwn yn yr incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i'r Cynghorau Ymchwil.

	2000/01	2007/08
Cyfanswm sefydliadau AU Cymru	£55,645,000	£99,108,000
Cynnydd fel % o'r ffigur man cychwyn	–	78.1%

Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.

Sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth

Mae'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru yn cynhyrchu dros 30,000 o raddedigion y flwyddyn, yn cyfrannu dros £1 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru, yn denu buddsoddiad o'r tu allan ac yn cynhyrchu enillion allforio, ac yn un o brif gyflogwyr Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod graddedigion yn barod ar gyfer byd gwaith a'u rôl fel dinasyddion. Mae'n hanfodol bod y wybodaeth a ddatblygir yn y sector addysg uwch yn cael ei gwneud yn hygyrch fel y gall gael ei datblygu gan y gymuned fusnes, ac mae angen i ddarparwyr feithrin eu cysylltiadau â chyflogwyr, a'u rolau diwylliannol a dinesig.

Ein nodau yw:

- bod o les i'r economi a chymdeithas – creu cyfoeth a gwybodaeth – drwy sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol rhwng sefydliadau AU a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.
- cadw sgiliau graddedigion yn yr economi Cymreig ac ymestyn cyfraniad sgiliau graddedigion o Gymru.
- helpu sefydliadau AU i gynhyrchu athrawon newydd gymhwyso o'r safon uchaf.

Bob blwyddyn, gweithiwn gyda sefydliadau addysg uwch:

- i gyfrannu at ddatblygu economaidd a chyflawni cyfiawnder cymdeithasol ar y lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, DU a rhyngwladol. Ceir gweithgareddau mewn meysydd megis sgiliau a chyflogadwyedd, cynaliadwyedd, menter, arloesedd a buddsoddiad o'r tu allan.
- sy'n derbyn cyllid i weithredu strategaethau Arloesedd ac Ymwneud (Trydedd Genhadaeth gynt) er mwyn hybu lles economaidd a chymdeithasol Cymru ac y tu hwnt.
- sy'n arwain mentrau cyflogadwyedd yn y DU gyda chynlluniau megis GO Wales. Mae GO Wales wedi cryfhau cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phrifysgolion. Mae'r rhaglen hon, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn dod â graddedigion a busnesau ynghyd drwy gefnogi lleoliadau gwaith neu drwy gynnig profiad gwaith a hyfforddiant.
- i annog canolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) i ystyried a mynd i'r afael â materion allweddol mewn perthynas â HCA a blaenoriaethau perthnasol a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a CCAUC. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys: hyfforddi athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaethol uwchradd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg; partneriaethau gydag ysgolion; cynnal a gwella ansawdd; a datblygu'r cwricwlwm.

Yn 2009–10

- Dyfarnwyd dros £2 filiwn i brifysgolion Cymru i helpu gweithwyr, cwmnïau a graddedigion yn ystod y dirwasgiad economaidd. Rhoddwyd pedwar prosiect, gwerth £2.15 miliwn, ar waith o dan y Fenter Cymorth Economaidd i alluogi prifysgolion Cymru i helpu unigolion a busnesau i oroesi'r anawsterau presennol. Mae'r fenter wedi galluogi sefydliadau AU Cymru i ddiogelu neu wella rhagolygon cyflogaeth gweithwyr yn yr economi Cymreig, staff sydd newydd golli eu gwaith, a graddedigion sy'n ymgymryd â swyddi am y tro cyntaf. Roeddynt hefyd yn gallu rhoi cymorth i gwmnïau, gan gynnwys mentrau bach a chanolig, mewn sectorau a dargedwyd, drwy eu galluogi i gyrchu gwybodaeth ac arbenigedd yn y sector addysg uwch er mwyn gwella perfformiad busnesau ac uwchraddio sgiliau eu gweithluoedd.
- Dyrannwyd dros £6.5 miliwn o gyllid Arloesedd ac Ymwneud (Trydedd Genhadaeth gynt) i sefydliadau AU i gefnogi strategaethau Trydedd Genhadaeth unigol a chydweithiol, yn ogystal â gweithgaredd cydweithiol mwy penodol megis *Prosiect Sgiliau'r Diwydiant Bwyd* a'r *Rhaglen Mewnwelediad Strategol.*
- Comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'n cylch cyllido Trydedd Genhadaeth tair blynedd cyntaf. Darganfu'r adroddiad hwn fod sefydliadau AU wedi gweld cynnydd o 50% mewn incwm o weithgareddau Trydedd Genhadaeth rhwng 2004/05 a 2006/07 a bod y gweithgareddau hyn

yn cael effaith gadarnhaol a mesuradwy o ran cyflawni uchelgais Cymru i ddod yn economi wedi'i seilio ar wybodaeth.

- Gwnaeth prifysgolion Cymru yn dda yn yr arolwg blynyddol o Ryngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned sy'n dangos sut y mae sefydliadau AU y DU yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes. Mae'n mesur maint a natur y rhyngweithiad rhwng prifysgolion a'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol. Dengys yr arolwg fod y sector AU Cymreig, sy'n darparu 5% o addysg uwch y DU, wedi gwneud yn well na hyn mewn sawl maes, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu cwmnïau newydd gan staff prifysgol (cwmnïau deilliedig) a chan fyfyrwyr (busnesau newydd a ddechreuir gan raddedigion) a'r lefelau cysylltiedig o drosiant a chyflogaeth, sy'n cael effaith uniongyrchol ar dwf economaidd yng Nghymru. Yn 2008/09 - y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer - cynhyrchodd prifysgolion Cymru 10% o'r holl fusnesau newydd a dechreuwyd gan raddedigion y DU a thros 12% o drosiant (tuag £16.5 miliwn) yr holl gwmnïau gweithredol a ddechreuwyd gan raddedigion y DU.
- Cyhoeddodd yr Academi Addysg Uwch ganlyniadau adolygiad ar raddfa'r DU o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang mewn cwricwla. Roeddem wedi noddi'r adolygiad hwn, a ddefnyddiodd erfyn archwilio a ddatblygwyd gan y Ganolfan Perthnasoedd Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas (BRASS) ym Mhrifysgol Caerdydd, yn 2008.
- Gweithredwyd trefniadau cyllido newydd ar gyfer strategaethau a phartneriaethau HCA.
- Buom yn rhannol gyllido'r Rhaglen STEM Addysg Uwch, menter i hybu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yng Nghymru a Lloegr. Byddai chwe phartner brifysgol, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, yn datblygu a chychwyn gweithgareddau yn eu rhanbarthau fel rhan o'r fenter sy'n werth £21 filiwn. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, yn denu pobl ifanc at ddisgyblaethau STEM ac yn annog plant mewn ysgolion i ddilyn y pynciau hyn.
- Cyhoeddwyd dyraniadau ar gyfer Cymorth Ychwanegol i Fyfyrwyr Rhan-Amser yn 2009/10. Pwrpas hyn oedd cynnal a chryfhau darpariaeth ran-amser, gyda phwyslais arbennig ar ehangu mynediad i addysg uwch ac ymestyn cysylltiadau â chyflogwyr ym maes addysg uwch ran-amser.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Hybu cydweithio ar draws Cymru ar adfywio economaidd-gymdeithasol, masnacheiddio, ymchwil, a sgiliau sector drwy gyfrwng Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud newydd y Cyngor drwy gydol 2009/10.	**Cyflawnwyd.** Erbyn hyn mae arian o Gronfeydd Strwythurol Ewrop yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau cydweithiol mawr. Mae'r rhain yn cwmpasu dysgu seiliedig ar waith, graddau sylfaen, mynediad i raddau Meistr ac ysgoloriaethau economi gwybodaeth. Mae ein Cronfa Trydedd Genhadaeth hefyd yn cefnogi pedwar prosiect cydweithiol ar draws y meysydd hyn ac mae'r Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud yn monitro'r rhain.
I: • asesu cynnydd y rhaglen GO Wales newydd, gan gynnwys sut y mae'n helpu graddedigion newydd neu raddedigion sydd wedi colli eu gwaith drwy'r dirwasgiad • gwerthuso cyfnodau cynharach y rhaglen, a • rhoi cyngor i Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut y gellid gwneud graddedigion yn fwy cyflogadwy byth, erbyn mis Rhagfyr 2009, gan gymryd i ystyriaeth agendâu sy'n codi o'r adolygiad o Yrfa Cymru.	Mae'r rhaglen newydd yn ei hanterth ac ymgymerwyd ag adolygiad diwedd blwyddyn o berfformiad. Roedd cyfnod peilot yr Academi Graddedigion yn llwyddiannus iawn, ac mae cynlluniau i'w hestyn yn ystod 2010/11. Cafodd y rhaglen beilot i raddedigion sydd eisiau gweithio ar eu liwt eu hun ei chynnal yn llwyddiannus, ac mae cynlluniau ar y gweill i'w hestyn i Gymru gyfan yn 2010/11. Daethpwyd i gytundeb â'r Ganolfan Byd Gwaith ynghylch gallu graddedigion i gadw budd-daliadau ar ôl cofrestru gyda'r AcademiGraddedigion. Adeg ysgrifennu, rydym yn disgwyl adroddiad yr adolygiad o Yrfa Cymru.

Gweithio'n agos â'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSS/SSC) a grwpiau cysylltiedig o randdeiliaid (gan gynnwys Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru) i: • gynhyrchu cynigion gan y sector addysg uwch i wella partneriaethau rhwng sefydliadau AU a chyflogwyr sy'n cynyddu lefelau o sgiliau a chyfleoedd masnacheiddio, er mwyn gallu gwneud argymhellion i APADGOS erbyn mis Ionawr 2010.	Yn dilyn y broses aildrwyddedu CSS, bu APADGOS yn annog SSCau i gynhyrchu cynlluniau gweithredu Cymru gyfan y bydd strategaethau AU benodol yn deillio ohonynt. Gosododd APADGOS ddyddiad cwblhau o ddiwedd Mawrth 2010 ar gyfer y broses hon (gan ddisodli'r dyddiad targed gwreiddiol, sef mis Ionawr) ond bu cynnydd yn araf oherwydd oedi wrth wneud penderfyniadau aildrwyddedu. Mae ein cynllun gweithredu Er Mwyn Ein Dyfodol yn ein hail-ymrwymo i'r agenda hwn, a gweithiwn yn agos gyda Chynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector, y Grŵp Cyfathrebu AU-CSS, a Rhaglen Gydweithiol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer AU; bydd yr un olaf yn cyllido darpariaeth gradd sylfaen a dysgu seiliedig ar waith a gyflwynir drwy bartneriaethau AU/addysg bellach/CSS, a chymeradwyir y prosiectau cyntaf ym mis Mawrth 2010. Cymerodd APADGOS ran lawn yn yr holl waith hwn.
Ymgynghori â'r sector addysg uwch yng nghyd-destun Strategaeth Trawsnewid (Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru) Llywodraeth Cynulliad Cymru, a datblygu datrysiadau sy'n cynnig cyfleoedd i ddarparu'n well ar gyfer anghenion dysgwyr a chyflogwyr drwy wella lefelau o sgiliau. Argymhellion cychwynnol i gael eu cyflwyno i APADGOS erbyn mis Mawrth 2010.	Gweler uchod. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn drwy ein cynllun gweithredu *Er Mwyn Ein Dyfodol*.
Ystyried ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad o raddedigion gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yng Nghymru drwy: i) cymryd rhan yng ngrŵp llywio STEM Cymru a Lloegr; a ii) rheoli cyfranogiad sefydliadau AU Cymru yn rhaglen STEM CCAULI sy'n cael ei rhedeg gan Brifysgol Birmingham. Cyflwyno adroddiad ar gynnydd i APADGOS erbyn mis Rhagfyr 2009.	Mae Cymru'n cymryd rhan yn y Rhaglen STEM Genedlaethol. Mae gweithgareddau yng Nghymru yn cael eu harwain gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) ym Mhrifysgol Abertawe.
Parhau i adolygu effeithiolrwydd Menter Cymorth Economaidd (MCE/ESI) CCAUC, gan roi cyngor i APADGOS fel y bo'n briodol ar unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd i leddfu effeithiau'r dirwasgiad economaidd.	**Cyflawnwyd.** Cymeradwywyd pedwar prosiect ar gyfer cyllid MCE. Roedd adroddiadau monitro cychwynnol i gael eu cyflwyno erbyn mis Ebrill 2010, a gwerthusiad ar ddiwedd y cynllun yn 2011.
Annog sefydliadau – yn eu rôl fel cyflogwyr – i ymateb i'r dirwasgiad economaidd.	**Cyflawnwyd.** Aeth strategaethau trydedd genhadaeth y sefydliadau AU a thrafodaethau GO (Cyfleoedd i Raddedigion) Wales i'r afael â materion yn ymwneud â'r dirwasgiad.

Gwneud argymhellion i APADGOS ar fesurau i estyn y cyfle ar gyfer darpariaeth ran-amser, gan gynnwys drwy'r gweithle, erbyn mis Mawrth 2010.	Adolygwyd y cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser (cyllid 'Graham'), a rhannwyd yr adroddiad â'r Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud, y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd a'r Cyngor; cytunwyd ar drefniadau diwygiedig a hysbyswyd y sector o'r dyraniadau newydd ym mis Ebrill. Mae gweithio'n agos â chyflogwyr yn parhau'n ganolbwynt i'r gweithgareddau cyllido.
Parhau i weithio, ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) i weithredu cynlluniau ar gyfer ailgyflunio HCA, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gyda'r Cynulliad.	**Cyflawnwyd.** Bu ailgyflunio yn mynd yn ei flaen yn gadarnhaol yn y tair Canolfan HCA newydd.
Yng ngoleuni adolygiad APADGOS o ddatblygiad proffesiynol athrawon: • ystyried dulliau o achredu datblygiad proffesiynol athrawon, a chysoni'r rhain â gwaith sefydliadau AU.	Gohiriwyd y drafodaeth hyd fis Ebrill 2010.
Cymryd i ystyriaeth y cynnydd a wneir gan Rwydwaith Ymchwil Addysg Cymru (WERN), i: • ddatblygu cynigion gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch ar gyfer cynyddu ymchwil i gyflwyno addysg a pherfformiad addysgol yng Nghymru erbyn diwedd Gorffennaf 2009. Gan ddilyn ymlaen o hyn: • gweithio gyda sefydliadau AU i gytuno ar ffordd ymlaen erbyn mis Rhagfyr 2009, a chychwyn arni erbyn diwedd Mawrth 2010.	**Cyflawnwyd.** Datblygwyd cynigion yn 2009 chytunwyd ar gyllid CCAUC erbyn mis Rhagfyr 2009.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Cwmnïau deilliedig

Y nifer o gwmnïau proffidiol sy'n deillio o sefydliadau AU yng Nghymru i ddyblu, o 21 i 42.

	2000/01	2007/08
Cyfanswm sefydliadau AU Cymru	25	35
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru):	0/7	0/9

Mae'r data'n dangos y cwmnïau deilliedig gwirioneddol a newydd i'w ffurfio bob blwyddyn academaidd.

Ailgyflunio, cydweithio, a'r gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu cyfundrefn addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig ar raddfa ranbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad ehangach am fyfyrwyr a staff, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae datblygiadau mewn mannau eraill yn effeithio ar gystadleurwydd y sector yng Nghymru.

Gosododd *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd yn 2009, fframwaith clir ar gyfer datblygu addysg uwch yng Nghymru. O fewn y cyd-destun hwn, dymunwn weld darparwyr yn gweithio'n nes â'i gilydd, a meddylfryd o gydweithio wedi'i wreiddio'n ddwfn ar draws y sector a chyda phartneriaid eraill, er mwyn adeiladu màs critigol, rhannu gwasanaethau a chynhyrchu mwy o incwm.

Ein nodau yw:

- cyfundrefn AU amrywiol, sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ac yn gwasanaethu anghenion Cymru.
- ymagwedd fwy strategol at ddosbarthu ein cyllid craidd i sefydliadau AU ac at sut y dosbarthwn y cyllid a neilltuir ar gyfer cyflawni blaenoriaethau *Ymgeisio'n Uwch*.

Gweithiwn gyda sefydliadau addysg uwch i:

- ddyfarnu cyllid drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi cynigion o bwys gan sefydliadau AU i gyfuno neu gydweithio mewn clystyrau neu rwydweithiau rhagoriaeth ym meysydd addysgu, ymchwil a gweithgareddau arloesedd ac ymwneud.
- cefnogi cydweithio a hefyd gynlluniau strategol ar raddfa'r DU nad ydynt yn dod o fewn telerau'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio drwy ein Cronfa Datblygu Strategol.
- adolygu eu strategaethau ystad, lle y mae sefydliadau'n cymryd i ystyriaeth anghenion eu hystadau unigol, gan gynnwys gofynion llety myfyrwyr a materion ariannol a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- darparu cyllid cyfalaf ar gyfer sefydliadau i'w helpu i fuddsoddi mewn adeiladau a chyfarpar ar gyfer addysgu ac ymchwil.

Yn 2009-10:

- Rhoddwyd sêl bendith ar gyfuno Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, a fydd yn creu prifysgol hyfyw a chynaliadwy newydd (Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant) sy'n adeiladu ar frandiau a thraddodiadau'r sefydliadau presennol. Bydd y brifysgol newydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer darpariaeth AU yng ngorllewin Cymru, a bydd yn bartner allweddol yng nghymuned ac economi rhanbarthol De-Orllewin Cymru.
- Cymeradwywyd £4 miliwn o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio ar gyfer y Consortiwm Newid Hinsawdd, sy'n cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Mae'r rhaglen ymchwil yn dwyn ynghyd bron 200 o arbenigwyr yn y pedair prifysgol i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar amgylchedd y Ddaear a bywydau pawb.
- Ymgynghorwyd ar yr argymhelliad yn *Er Mwyn Ein Dyfodol* y dylai addysg uwch yng Nghymru gael ei datblygu yng nghyd-destun strwythur cynllunio a chyflwyno rhanbarthol, a galwyd am strategaethau rhanbarthol ym mis Mai 2010.
- Rhoddwyd cyngor ar y posibilrwydd o osod ffigur uchaf ar gyfer israddedigion amser-llawn ar gyfer 2011/12 (a dosbarthwyd cylchlythyr ymgynghori ym mis Gorffennaf 2010).
- Adolygwyd y trefniadau ar gyfer y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio a'r Gronfa Datblygu Strategol a chyhoeddwyd arweiniad newydd.

Llywodraethu ac ymgysylltu

Mae rôl cyrff llywodraethu'r prifysgolion yn hanfodol o ran gosod eu cyfeiriad strategol a dal timau gweithredol yn gyfrifol am eu perfformiad. Rydym wedi ymrwymo i'w hannog i sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor-hir y gyfundrefn addysg uwch.

Ein nod yw:

- ystyried sut y gallwn ddatblygu arweinyddiaeth a llywodraethu o fewn y sector addysg uwch.

Rydym yn:

- cynnig sylwadau adeiladol ar gynlluniau strategol sefydliadau addysg uwch. Byddwn hefyd yn monitro eu cynnydd, yn darparu adborth ac yn gweithio gyda hwy i wella perfformiad mewn rhai meysydd.
- asesu datganiadau monitro blynyddol sefydliadau, sy'n adrodd ar gynnydd yn erbyn strategaethau a chynlluniau CCAUC.
- adolygu rhagolygon ariannol pum mlynedd y sefydliadau a'u datganiadau ariannol archwiliedig blynyddol er mwyn asesu eu cynaliadwyedd.
- sicrhau bod ein Cyngor yn ymweld â phob sefydliad AU yng Nghymru o leiaf unwaith bob tair blynedd i ddod i adnabod sefydliadau unigol yn well, i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sefydliadau, ac i wella ein dulliau o roi adborth iddynt.
- helpu sefydliadau i lynu at ganllawiau a deddfwriaeth arall, er enghraifft, ym meysydd cydraddoldeb a chaffael.
- parhau i gefnogi gwaith llywodraethu a rheolaeth y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch (LFHE) a Phwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ar raddfa DU a Chymreig. Mae Prif Weithredwr CCAUC yn cadeirio grŵp sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr uwch o Gadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), Addysg Uwch Cymru (AUC), y Sefydliad Arweinyddiaeth yng Nghymru, ac eraill sy'n gysylltiedig â datblygu llywodraethwyr a rheolwyr.
- gweithio gydag Uned Her Cydraddoldeb (UHC/ECU) y DU i gadw llygad ar sut y mae sefydliadau AU yn cwrdd â'u rhwymedigaethau statudol o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r Uned yn arwain prosiectau a gweithgareddau ymchwil yn y DU ac yn trefnu cyfarfodydd o Grŵp Cyswllt Cymru i rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Byddwn yn monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth am sefydliadau AU yng Nghymru ac yn rhoi cyngor ac arweiniad yn y maes hwn.

Yn 2009-10:

- Datblygasom ein fframwaith ar gyfer gweithio'n fwy strategol â'r sector AU yng Nghymru.
- Gweithredwyd ein hymagwedd at asesu risg sefydliadol, i'n helpu i ganolbwyntio'n gliriach ar y materion strategol allweddol sy'n wynebu sefydliadau ac ar gynaliadwyedd sefydliadau yn y tymor hir.
- Cyhoeddwyd ein Trefn ar gyfer Ymdrin ag Ansawdd Anfoddhaol mewn Sefydliadau yng Nghymru.
- Rhoddwyd cymhelliad i brifysgolion, sy'n werth £10 miliwn dros gyfnod o dair blynedd, i gynyddu eu gallu i godi arian. Roedd y cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol yn gwarantu cyllid ychwanegol – cyfatebol – gan CCAUC ar gyfer rhoddion a wneir i sefydliadau AU gan gyrff ac unigolion, gan gynnwys cynfyfyrwyr.
- Cynhyrchwyd Pecyn Offer Gwybodaeth ar gyfer llywodraethwyr addysg uwch, er mwyn rhannu peth o'r ystod eang o wybodaeth sydd ar gael i helpu llywodraethwyr i gwrdd â'u rhwymedigaethau wrth lywio a monitro cyfeiriad strategol cyffredinol eu sefydliad.
- Rhoddasom dystiolaeth gerbron Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gyllido Addysg Ôl-16, Bellach ac Uwch. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ffeithiol sylfaenol addysg uwch yng Nghymru a'r hyn a allai ddigwydd pe bai unrhyw ostyngiad mawr mewn incwm i brifysgolion Cymru. Nodwyd

bod gan y sector AU enw da am reoli ei arian yn ystod amserau anodd, ac y byddem yn disgwyl i sefydliadau wneud asesiadau realistig o'u dyfodol ariannol a newid eu darpariaeth yn unol â hynny er mwyn parhau i gynnig addysgu ac ymchwil o safon uchel.

- Cymeradwywyd argymhellion y dylai'r UHC gael ei hariannu am bum mlynedd arall, o 2011 hyd 2016, gan ddilyn y model presennol, ac y dylai cynnydd yr Uned o ran prif-ffrydio cydraddoldeb o fewn y sector gael ei adolygu yn 2013.
- Cyflwynwyd ein *Gwerthusiad ac Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb i Bobl Anabl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru*, adroddiad sy'n bwrw golwg cyffredinol dros y sector AU.
- Ar y cyd â Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), y Sefydliad Arweinyddiaeth, ac Addysg Uwch Cymru (AUC), trefnwyd cynhadledd i lywodraethwyr addysg uwch. Ymdriniodd y Gynhadledd ar Ddatblygu Llywodraethwyr ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys sicrhau iechyd ariannol a chynaliadwyedd prifysgolion a chynnal ysbryd y staff yn ystod amserau anodd, a thrafodwyd priodweddau hanfodol prifysgol yn yr 21ain ganrif. Rhoddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg, y brif araith yn y digwyddiad pryd y cyhoeddodd adolygiad o lywodraethu yn y sector AU yng Nghymru.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Datblygu fframwaith i werthuso pa mor effeithiol yw gwariant cyfredol o ran sicrhau canlyniadau, wedi'i seilio ar wybodaeth rheoli gyson am allbynnau a chyflawni.	Gohiriwyd wrth aros am strategaeth a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, a'n llythyr cylch gwaith ar gyfer 2010-11.
Cynnig a chymryd camau penodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn y modd mwyaf effeithlon i sefydliadau AU er mwyn cwrdd â chanlyniadau blaenoriaethol ar gyfer Cymru, gan gynnwys papur i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2009 am y defnydd strategol o gyllid craidd.	**Cyflawnwyd.** Yn dilyn ymgynghori â'r sector AU, gweithredwyd newidiadau ar gyfer cyllid 2010/11, a oedd yn cynnwys rhoi pwyslais pellach ar y defnydd strategol o gyllid craidd.
Gweithio gydag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru i: • ddatblygu fframwaith ar gyfer cyllido sector AU cynaliadwy, gan gynnwys cynllunio i wneud defnydd effeithiol o arian yn sgil adolygiad Merfyn Jones o addysg uwch.	Gohiriwyd wrth aros am *Er Mwyn Ein Dyfodol* a'n llythyr cylch gwaith ar gyfer 2010-11.
Ar y cyd â'r sector addysg uwch, datblygu cyflwyniadau i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio, gyda thargedau a gweithredoedd i'w cyflawni i gael eu cadarnhau ar gyfer pob cynnig cyn rhyddhau cyllid, gyda'r nod o hybu ymwneud sefydliadau AU ag agenda Trawsnewid (Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru) Llywodraeth Cynulliad Cymru.	**Cyflawnwyd**. Bu cyfarfod y Pwyllgor Ailgyflunio a Chydweithio ym mis Tachwedd 2009 yn ystyried pedwar cynnig, a phenderfynwyd y gellid fforddio bwrw ymlaen ag un ohonynt.

Rhoi cymorth a chefnogaeth i fwrw ymlaen â phrosiect Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI).	**Cyflawnwyd.** Daeth ein Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd Rhaglen Addysgol Blaenau'r Cymoedd. Cymeradwywyd cymorth ariannol o'r Gronfa Datblygu Strategol tuag at gostau cychwyn Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI) a chytunwyd ar gontract gydag APADGOS ar gyfer trosglwyddo cyllid ar gyfer niferoedd ychwanegol o fyfyrwyr.
Yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Gweinidog: • bwrw ymlaen â'r argymhellion yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gydweithio rhwng sefydliadau AU erbyn mis Medi 2009, gan gynnwys ehangu'r meini prawf i annog cydweithio rhwng sefydliadau AU a sefydliadau mewn sectorau eraill, agweddau eraill ar gyflwyno darpariaeth, a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru megis yr agenda Trawsnewid (Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru).	**Cyflawnwyd**. Cyhoeddwyd y trefniadau diwygiedig mewn cylchlythyr ym mis Medi 2009.
Gweithio gyda'r sector i wella caffael, gan gynnwys: • monitro cynlluniau gweithredu'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy ac ystadegau o dempledi Asesiad Risg Cynaliadwyedd, i sicrhau bod targedau Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu cyflawni; • gweithredu argymhellion y Tasglu Caffael Busnes sy'n codi o'r prosiect ymchwil "Rhwystrau i gyfleoedd caffael" pan gânt eu cyhoeddi; • cwrdd â'r targed ar gyfer arbedion caffael yn "Gwneud y Cysylltiadau"; ac • estyn y defnydd o e-dechnoleg i wella'r broses gaffael a sicrhau talu prydlon, gan gynnwys defnyddio cardiau prynu.	Cafodd ystadegau Caffael Cynaliadwy Blwyddyn 2 eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2010 ac rydym yn disgwyl gwybodaeth feincnodi ganddynt. Derbyniwyd gwybodaeth am arbedion a wnaed gan y sector ym mis Mawrth 2010 a ddangosodd iddo gyrraedd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer arbedion caffael. Mae gwaith yr is-grŵp rhwystrau ac e-dechnoleg yn mynd rhagddo gyda'r sector a staff Gwerth Cymru LlCC.
Yn dilyn gweithredu'r defnydd strategol o gyllid craidd ar gyfer ymchwil: • ystyried ymestyn hyn, er enghraifft i feysydd polisi ehangu mynediad, ac i gyllid cyfalaf, a chymryd i ystyriaeth ddimensiwn rhanbarthol darpariaeth AU er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian mewn perthynas â dyraniadau cyllid. Cyflwyno papur cychwynnol i'r Cyngor i'w ystyried ym mis Gorffennaf 2009.	**Cyflawnwyd.** Cytunodd y Cyngor ar gynigion ar gyfer ymgynghori yng nghyfarfod Gorffennaf 2009. Cyhoeddwyd y cylchlythyr ymgynghori ym mis Medi 2009 a'r canlyniadau ym mis Mawrth 2010.
Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Addysg Uwch Cymru (AUC): • gweithredu trefniadau ar gyfer cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoddion i sefydliadau AU Cymru erbyn mis Awst 2009.	**Cyflawnwyd.** Dechreuodd y cynllun newydd ym mis Awst 2009.

Paratoi adroddiad ar y cydweithio presennol mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoli asedau a ddarperir gan sefydliadau AU Cymru, o fewn ac y tu allan i'r sector AU.	Gyda datblygu strategaethau rhanbarthol mewn ymateb i *Er Mwyn Ein Dyfodol*, nid yw'r dasg hon yn berthnasol bellach.
Gweithio gyda'r sector (ac yn arbennig AUC) i: • chwilio am gyfleoedd i hybu gweithgareddau drwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill.	Cychwynnwyd y Cynllun Arian Cyfatebol ar gyfer Rhoi Gwirfoddol. Buom yn gweithio'n agos â'r sector AU i ddatblygu cynigion cydweithiol ar gyfer cyllid Ewropeaidd.
Ystyried sut y gallai CCAUC ymestyn ei berthnasoedd â grwpiau ehangach o randdeiliaid a chyflogwyr, a rhoi cyngor i APADGOS ar hyn, erbyn mis Chwefror 2010.	Mae CCAUC wedi llwyddo i godi ei broffil ac i gynyddu ei gysylltiadau uniongyrchol â rhanddeiliaid mewn fforymau cenedlaethol a rhyngwladol.

Targed yn *Ymgeisio'n Uwch:* Lleihau Gorbenion

Y **gost weinyddu ganolrif** am bob myfyriwr cyfwerth ag amser-llawn (CALl) ar gyfer sefydliadau AU Cymru i ostwng o lefel y 45ain canradd ar gyfer costau gweinyddu am bob myfyriwr CALl yn sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-Ddwyrain) i'r 40fed canradd erbyn 2007/08 a'r 25ain canradd erbyn 2010/11.

	2000/01	2006/07
Canolrif sefydliadau AU Cymru (£)	2,476	3,677
Canran o sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-Dd) sydd â chostau gweinyddu am bob myfyriwr CALl sy'n is na'r canolrif Cymreig	45%	42%
Canolrif sefydliadau AU y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-Dd) (£)	2,659	3,955
Isaf/uchaf (sefydliadau AU Cymru) (£):	1,483 - 5,419	1,904 – 7,058

Mae costau gweinyddu'n cynnwys costau adrannau academaidd (heb gynnwys costau staff academaidd), gwariant ar wasanaethau academaidd a gwariant ar weinyddu a gwasanaethau canolog (nid ydynt yn cynnwys gwariant ar adeiladau). Mae'r cyfrifiad CALl yn cynnwys pob myfyriwr AU ac AB ar gyfer pob blwyddyn a phob myfyriwr nad yw ei gwrs yn arwain at gredyd hyd at 2003/04 (ac eithrio rhai myfyrwyr Cymraeg i Oedolion nad oes data CALl ar gael ar eu cyfer rhwng 2000/01 a 2004/05).

Cymerir y data o ystadegau rheoli addysg uwch ar lefel y sefydliad a gyhoeddir ar y system HEIDI, ac sy'n seiliedig ar ddata'r AYAU.

Cafodd data ar gyfer Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru eu cyfuno o 2004/05. Cafodd data ar gyfer Prifysgol Morgannwg a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru eu cyfuno o 2006/07.

CCAUC fel corff

Ein nod yw darparu amgylchedd lle y gall ein staff gyrraedd eu potensial llawn fel y gall CCAUC, yn ei dro, gyflawni ei amcanion polisi a darparu gwasanaeth effeithiol.

Fel corff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru, rydym yn gweithredu o fewn amgylchedd yr ydym yn dylanwadu arno yn hytrach na'i reoli.

Atebolrwydd CCAUC

Diffinnir y berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y *Datganiad Rheoli a'r Memorandwm* Ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y defnydd o'r cyllid cyhoeddus a roddir i CCAUC.

Bydd y Gweinidog Addysg yn cynnal cyfarfod adolygu chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol gyda'r Prif Weithredwr a staff CCAUC.

Archwilir ein cofnodion a'n cyfrifon gan swyddfa annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru).

Cyngor ac adran weithredol CCAUC

Yn ystod 2009-10, roedd gan y Cyngor 12 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Croesawyd un aelod newydd, ailbenodwyd un aelod, ac ymddiswyddodd un aelod.

Yn ystod 2009-10, cyfarfu'r Cyngor saith gwaith. Bydd aseswr o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae gan Brif Weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban, yr Is-ysgrifennydd sy'n gyfrifol am addysg uwch yn Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, a llywydd NUS Cymru statws sylwedydd ar y Cyngor.

- Roedd y nifer cyfartalog o swyddi cyfwerth ag amser-llawn yn 2009-10 yn 52. Roedd hyn yn cynnwys swyddi amser-llawn, swyddi rhan-amser, rhannu swyddi, penodiadau cyfnod penodol, staff ar secondiadau tymor hir a thymor byr, a myfyrwyr yn gweithio ar leoliadau o fewn CCAUC.

Ein nodau yw:

- recriwtio a datblygu staff sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n amlygu gwerthoedd ac egwyddorion y corff.
- asesu'n barhaus a nodi meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau drwy gyfrwng ymarferion megis Buddsoddwyr mewn Pobl, arolygon rhanddeiliaid, arolygon staff, ac adolygiadau perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gweithredu fel y bo angen, gan gynnwys ym meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, er mwyn gallu codi i sialensiau'r dyfodol.
- er mwyn cyflawni ein cenhadaeth, sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer ein rhanddeiliaid a'n partneriaid, a bod cyfathrebiadau clir, hygyrch a strategol yn cynnal ein gweithrediadau mewnol a'n perthnasoedd â sector addysg uwch Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allanol eraill.
- gweithio'n effeithiol ac effeithlon, a bod yn gyflogwr model, a chadw'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'n gyson ein strwythur staffio a chymorth, a hefyd ein systemau ariannol a systemau eraill, i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu arian cyhoeddus a rhoi gwerth am arian.
- trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- lleihau effaith amgylcheddol, gan gynnwys caffael cynaliadwy.

Yr hyn a wnawn

- Cynhyrchwn strategaeth gorfforaethol (sy'n nodi ein gweledigaeth a'n canlyniadau strategol tymor-hir) a chynllun gweithredol mwy manwl. Mae'r cynllun gweithredol yn cynnwys targedau a gweithredoedd a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei llythyr cylch gwaith blynyddol i CCAUC. Mae cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau yn cael ei adolygu bob chwarter gan ein Cyngor ni ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae gennym gofrestr risg corfforaethol lefel uchel sy'n nodi risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol ac â'r amgylchedd ehangach rydym yn gweithredu oddi mewn iddo, a'r mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hyn.
- Cynhaliwn ddeialog â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch yr angen am lefel briodol o gyllid i'r sector AU yng Nghymru.
- Mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi sut y mae CCAUC yn darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd a'r sector addysg uwch.
- Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb sy'n amlinellu ein hymrwymiadau a'n cynlluniau mewn perthynas ag anabledd, rhyw, hil, oedran, crefydd a chredo, a gogwydd rhywiol. Byddwn yn cynnwys ac yn ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb wrth ddatblygu ein cynlluniau cydraddoldeb a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithredoedd sy'n ymdrin â CCAUC fel cyflogwr a pholisïau'n ymwneud â'r sector AU yng Nghymru.
- Mae gennym system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei gwirio'n allanol, a gweithiwn gyda'n staff i ddarganfod ffyrdd o wella perfformiad amgylcheddol a'u gweithredu.
- Er mwyn monitro effeithiolrwydd y broses gwneud cais a pholisïau cyflogaeth cysylltiedig, a darganfod a yw pob ymgeisydd ac aelod staff yn cael ei drin ar sail cyfartaledd, rydym wedi bod a byddwn yn monitro rhyw, oedran, anabledd, statws priodasol, tarddiad hiliol neu ethnig, gogwydd rhywiol, crefydd neu gredo ein staff ac ymgeiswyr. Fel corff bach, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein data ar gyfer 2009-10 heb i unigolion gael eu hadnabod. Mae ein gwefan yn cynnwys data monitro cydraddoldeb am y sector AU yng Nghymru ac am CCAUC fel cyflogwr.

Mynediad i wybodaeth

Cynllun Cyhoeddi

- Mae Cynllun Cyhoeddi CCAUC, a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn nodi'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chyhoeddi, neu'n bwriadu ei chyhoeddi, yn rheolaidd; sut y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu am dâl. Mae'r Cynllun Cyhoeddi ar gael ar ein gwefan, **www.hefcw.ac.uk**, neu ar ffurf dogfen bapur drwy wneud cais.

Cod Ymarfer a chofrestr o fuddiannau

- Mae gofyn i bob aelod o'r staff a'r Cyngor gydymffurfio â Chod Ymarfer a chofrestru buddiannau ariannol a gwleidyddol a buddiannau eraill sy'n berthnasol i fusnes CCAUC. Mae'r gofrestr o fuddiannau ar gael ar ein gwefan, **www.hefcw.ac.uk,** neu gellir cael copi drwy wneud cais i Glerc y Cyngor.

Cwynion

- Mae gennym Drefn Cwynion yn Erbyn CCAUC a gall Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i CCAUC. Cawsom un cais i ystyried cwyn o dan y Drefn Gwyno yn ystod y flwyddyn.

Yn 2009-10

- Lansiwyd ein gwefan newydd, yn dilyn sylwadau gan randdeiliaid fod y wybodaeth ar ein hen wefan yn helaeth, ond yn anodd dod o hyd iddi.
- Paratowyd ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd.
- Cyhoeddwyd adroddiad yr *Adolygiad o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd* a gynhaliwyd gan uned Perfformiad a Llywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng Mehefin ac Awst 2009. Roedd yr adolygiad yn rhan o raglen ehangach o adolygiadau o lywodraethu a sefydlwyd fel rhan o agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gymerodd le'r adolygiadau 'pum-mlynyddol' blaenorol o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.
- CCAUC oedd y corff cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr iechyd gweithle bach Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y lefel arian.

Perfformiad yn erbyn tasgau yn y Llythyr Cylch Gwaith

Gweithred	Canlyniad
Ymateb i adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o lywodraethu yn CCAUC, a chynhyrchu cynllun gweithredu ar ôl ei dderbyn.	**Cyflawnwyd.** Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2010 a chymeradwyodd ein Cyngor y cynllun gweithredu a fyddai'n mynd i'r afael â'i argymhellion ar 12 Mawrth.
Datblygu Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2009-10 – 2011-12 a Chynllun Gweithredol ar gyfer 2009-10, a'u cyflwyno i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn dechrau Mehefin 2009.	**Cyflawnwyd.**
Datblygu'r fframwaith monitro perfformiad ymhellach, mewn ymgynghoriad â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agos â phroses rheoli perfformiad Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.	**Cyflawnwyd.** Cynhwysodd y ddogfen hon yr adroddiad monitro o fewn y fframwaith.
Ymgymryd ag adolygiad blynyddol o gynllun gweithredu caffael cynaliadwy CCAUC i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu cyflawni, erbyn mis Chwefror 2010.	**Cyflawnwyd.** Cwblhawyd yr adolygiad blynyddol a chyrhaeddwyd targed Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef Lefel 3. Cyflwynwyd gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2010.

Pwyllgorau a gweithgorau'r Cyngor yn 2009-10

Y Pwyllgor Penodiadau
Cadeirydd: Roger Thomas

Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Cadeirydd: David Allen

Y Pwyllgor Adnoddau Dynol
Cadeirydd: Y Fonesig Sandra Burslem

Y Pwyllgor Ailgyflunio a Chydweithio
Cadeirydd: Y Fonesig Sandra Burslem

Y Pwyllgor Tâl
Cadeirydd: Roger Thomas

Y Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud
Cadeirydd: Yr Athro Robin Williams

Y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd
Cadeirydd: Yr Athro Leni Oglesby

Aelodau'r Cyngor yn ystod 2009-10

Mae bywgraffiadau llawn ar gael yn **www.hefcw.ac.uk / Cyngor a Phwyllgorau / Aelodau'r Cyngor.**

Cadeirydd

Roger Thomas

5 Mai 2008 hyd 4 Mai 2011

Roedd Mr Roger Thomas OBE, CCMI, FRSA, OStJ yn Gadeirydd y Llywodraethwyr ac yn Ddirprwy-Ganghellor Prifysgol Morgannwg, ac yn Gadeirydd Cadeiryddion Addysg Uwch Cymru. Yn rhinwedd y swydd olaf hon roedd yn aelod o Grŵp Cadeiryddion Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol a hefyd yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau, a'r Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Staff Addysg Uwch.

Y tu allan i addysg uwch, mae Roger yn Ddirprwy Gadeirydd Business in Focus Ltd (asiantaeth fenter), yn aelod o Gyngor CBI Cymru, ac yn farnwr gyda Llys Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru. Bu gynt yn uwch bartner gyda chyfreithwyr Eversheds yng Nghaerdydd, yn Is-Lywydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, yn Ymgynghorydd Partneriaeth Busnes i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gyfarwyddwr Opera Genedlaethol Cymru ac yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Aelodau eraill:

Yr Athro Philip Gummett

Prif Weithredwr

o fis Mai 2004

Yr Athro Gummett yw Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Ymunodd â CCAUC o Brifysgol Manceinion, lle yr oedd yn Ddirprwy Is-ganghellor, yn gyn Bennaeth yr Adran Llywodraeth ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg. Roedd yn un o sylfaenwyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Polisi mewn Peirianneg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion – un o'r canolfannau ymchwil polisi gwyddoniaeth pwysicaf yn y byd, ac mae'n gyn-aelod, ac yn Gadeirydd Bwrdd Arholwyr Bwrdd Hyfforddi'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

David Allen

Cofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg

1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Bu David Allen yn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd Prifysgol Caerwysg ers 2003, ac yn Ddirprwy Brif Weithredwr ers 2009. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu ar Fwrdd y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch ac yn gadeirydd ei Bwyllgor Archwilio. Mae'n aelod o Bwyllgor Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Rheolaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac yn gwasanaethu ar ei Grwpiau Cynghori Cynaliadwyedd a Gwasanaethau a Rennir. Mae ef hefyd yn aelod o Bartneriaeth Gyflawni ar gyfer Addysg Uwch Prifysgolion y DU.

Y Fonesig Alexandra (Sandra) Burslem

Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion

1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Bu'r Fonesig Sandra yn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion o 1997 i 2005. Mae hi wedi cael ei phenodi bellach yn Gomisiynydd Gwasanaeth Sifil. Mae hi'n Gadeirydd y Pwyllgor Anrhydeddau Addysg ac yn Gadeirydd Annibynnol cyntaf Partneriaeth Addysg-DU y Cyngor Prydeinig. Mae Sandra hefyd yn eistedd ar Fyrddau nifer o sefydliadau addysgol. Derbyniodd OBE am ei gwasanaeth i addysg uwch ym 1992 a daeth yn Fonesig Gomander yr Ymerodraeth Brydeinig yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd yn 2004. Roedd hefyd yn Uchel Siryf Sir Fanceinion Fwyaf yn 2006-07.

Yr Athro Anthony Hazell

Cadeirydd Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth y DU

1 Ionawr 2009 hyd 31 Rhagfyr 2011; ymddiswyddodd 31 Mai 2009

Ymddeolodd yr Athro Hazell o'i swydd amser-llawn fel Is-Brifathro Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn 2004 ar ôl treulio bron 30 mlynedd yn y sector addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. O 2001 hyd 2008 roedd yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Bu ganddo nifer o swyddi ar bwyllgorau o fewn CCAUC, ac ym mis Ebrill 2008 ymunodd â Bwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Bu'n Aelod o Gyngor y Proffesiynau Iechyd ers 2002 ac mae ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth newydd.

Yr Athro Katherine (Leni) Oglesby

Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Glannau Tees

1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Mae'r Athro Oglesby wedi dal swyddi academaidd ac uwch reolwr ym mhrifysgolion Caerlŷr, Sheffield, Lancaster, Surrey a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion, a bu ar secondiad i Adran Polisi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Mae ganddi brofiad helaeth o asiantaethau rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol a bu'n aelod o baneli CCAULI a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Graddiodd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac ymgymerodd ag astudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerlŷr. Mae hi hefyd yn gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau. Ar hyn o bryd mae hi'n aelod o Bwyllgor Cynghori Strategol ar Ehangu Cyfranogiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

Yr Athro Mari Lloyd-Williams

Uwch Academydd Clinigol, Prifysgol Lerpwl

1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009; ailbenodwyd 1 Ionawr 2010 hyd 31 Rhagfyr 2012

Mae gan yr Athro Lloyd-Williams gadair bersonol yng Nghyfadran Feddygol Prifysgol Lerpwl ers 2003, lle y mae hi hefyd yn ymgynghorydd mewn meddygaeth liniarol ac yn Gyfarwyddwr un o'r rhaglenni addysg feddygol gymunedol mwyaf yn y DU. Roedd yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus ac yn Arweinydd Meddygol yn Hosbis LOROS yng Nghaerlŷr. Mae ganddi brofiad helaeth o gadeirio ac eistedd ar bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys, ar hyn o bryd, pwyllgor ymddygiad proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol a phwyllgor yr Adran Iechyd ar ofal seicogymdeithasol.

Yr Athro D Garel Rhys OBE

Cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol, Prifysgol Caerdydd

31 Hydref 2003 hyd 30 Hydref 2006; ailbenodwyd 31 Hydref 2006 hyd 30 Hydref 2009; wedi'i hestyn hyd 31 Rhagfyr 2009

Roedd yr Athro Emeritws Garel Rhys yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ac roedd yn dal cadair Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau Modur mewn Economeg Diwydiant Modurol. Roedd yn bennaeth Adran Economeg yr Ysgol Fusnes hyd 1999. Mae'n Gadeirydd Fforwm Modurol Cymru. Mae ef wedi cynghori amryw Bwyllgorau Dethol. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol ac yn aelod o Grŵp Cynghori Gweinidogion Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae hefyd yn aelod o Banel Cynghori'r DTI ar y Diwydiant Rasio Modur ac yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd.

Kenneth Richards

Cyn academydd, Prifysgol Aberystwyth

1 Ionawr 2007 hyd 31 Rhagfyr 2009

Addysgwyd Mr Ken Richards yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd ac Adran Economeg Athrofa Dechnoleg Massachusetts. Treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa fel academydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle y daeth yn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes. Roedd yn aelod o'r ddau adolygiad annibynnol o gyllid myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees, ac mae wedi cyhoeddi nifer o bapurau academaidd ar y pwnc hwnnw. Mae Mr Richards yn Gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd.

Yr Athro Syr Brian Smith

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

1 Rhagfyr 2002 hyd 30 Tachwedd 2005;
1 Rhagfyr 2005 hyd 30 Tachwedd 2008;
1 Rhagfyr 2008 hyd 30 Tachwedd 2011

Penodwyd Syr Brian yn Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd ym 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny, bu'n bennaeth Coleg y Santes Catherine, Prifysgol Rhydychen. Urddwyd ef yn farchog ym 1999 mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant i adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Bu Syr Brian hefyd yn gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru o fis Hydref 1998, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a Tsieina. Syr Brian yw Llysgennad Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd.

Pauline Thomas

Cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri

1 Ebrill 2007 hyd 31 Mawrth 2010

Graddiodd Mrs Pauline Thomas ym Mhrifysgol Nottingham gyda gradd mewn Cemeg ac ym Mhrifysgol Keele gyda TAR (gyda chlod) mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg, ac enillodd MA mewn Rheolaeth Addysgol gan y Brifysgol Agored ym 1998. Symudodd i Gymru ym 1999 a fe'i penodwyd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Sir Fynwy. Cwblhaodd Mrs Thomas ei Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2001. Roedd hi'n Bennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri o fis Ionawr 2002 hyd 2009. Bu'n aelod etholedig o Gyngor Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg yn 1999 a bu'n Swyddog Aelodaeth cyn cael ei hethol yn Ysgrifennydd Mygedol yn 2005.

Yr Athro Robin Williams CBE

Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

1 Awst 2009 hyd 31 Gorffennaf 2012

Yr Athro Robin Williams oedd Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe o 1994 hyd 2003. Cyn hynny roedd yn Bennaeth Ffiseg a Seryddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd lle yr oedd yn Is-brifathro hefyd. Roedd llawer o'i ymchwil yn cynnwys cydweithio â diwydiant ar hyd a lled y byd ac mae ef wedi cadeirio amrywiaeth eang o bwyllgorau cenedlaethol a rhyngwladol ym meysydd ffiseg a pheirianneg. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol a rhoddwyd CBE iddo am ei gyfraniad at ymchwil ac addysg uwch. Mae ef wedi gwasanaethu ar y Grwpiau Cynghori Gweinidogion ar gyfer datblygu economaidd ac ar gyfer addysg yng Nghymru ac roedd yn aelod o'r grŵp a sefydlwyd i adolygu addysg uwch. Bu'n cadeirio'r Bwrdd Cynllunio a gynhyrchodd adroddiad ar fodel ar gyfer y 'Coleg Ffederal'.

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Datganiadau ariannol cryno

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

Datganiadau ariannol cryno

Crynodeb o gyfrifon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 yw'r datganiadau ariannol sy'n dilyn. Mae'r datganiadau'n rhoi darlun cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i allu deall yn llawn ganlyniadau a sefyllfa CCAUC. I gael gwybodaeth bellach, dylid astudio'r cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hyn. Gellir cael copi o'r cyfrifon archwiliedig, sy'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan y gyfraith ac o dan y canllawiau arfer gorau, yn ddi-dâl gan Glerc y Cyngor, CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ.

Cefndir statudol

Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei greu a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig iddo ar 1 Gorffennaf 1999. Yn sgil hyn, daeth CCAUC yn gorff a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae CCAUC bellach yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau'r awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac am gyflawni'r swyddogaethau atodol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg 1994.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Y costau gweithredol net am y flwyddyn oedd £475.4 miliwn (costau gweithredol net 2008-09 £454.3 million). Y gronfa gyffredinol gronnus ar 31 Mawrth 2010, ar ôl credydu cyllid cymorth grant o £474.3 miliwn, oedd £4.3 miliwn (2008-09 £5.2 miliwn).

Aelodau'r Cyngor

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad:

Cadeirydd

Mr Roger Thomas OBE
(penodwyd 5 Mai 2008)
Cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Morgannwg

Aelodau

Yr Athro Philip Gummett
Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Mr David Allen
(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)
Cofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg

Y Fonesig Alexandra Burslem
(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)
Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Manceinion

Yr Athro Anthony Hazell
(penodwyd 1 Ionawr 2009, ymddiswyddodd 31 Mai 2009)
Cadeirydd Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth y DU

Yr Athro Mari Lloyd-Williams
(penodwyd 1 Ionawr 2007)
Athro a Chyfarwyddwr y Grŵp Astudiaethau Gofal Lliniarol a Chefnogol Academaidd, Prifysgol Lerpwl

Yr Athro Katherine Oglesby
(penodwyd 1 Rhagfyr 2008)
Cyn Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor
Prifysgol Glannau Tees

Yr Athro D Garel Rhys CBE
(daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar 31 Rhagfyr 2009)
Cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Diwydiant Modurol, Prifysgol Caerdydd

Mr Kenneth Richards
(daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar 31 Rhagfyr 2009)
Cyn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid, Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Yr Athro Syr Brian Smith
(ail-benodwyd 1 Rhagfyr 2008)
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

Mrs Pauline Thomas
(penodwyd 1 Ebrill 2007, daeth ei chyfnod yn y swydd i ben ar 31 Mawrth 2010)
Pennaeth Ysgol Gyfun Abertyleri

Yr Athro Robin Williams CBE
(penodwyd 1 Awst 2009)
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

Bu Aelodau canlynol y Cyngor yn gwasanaethu ar bwyllgorau a phaneli CCAUC yn ystod y flwyddyn:

Pwyllgorau	Aelodau
Profiad myfyrwyr, addysgu ac ansawdd (Dysgu ac addysgu gynt) Yr Athro Katherine Oglesby (Cadeirydd)	Yr Athro Mari Lloyd-Williams, Mrs Pauline Thomas *(hyd 31 Mawrth 2010)*
Ymchwil, arloesedd ac ymwneud	Yr Athro Garel Rhys (Cadeirydd) *(hyd 31 Rhagfyr 2009)*, Mr Kenneth Richards *(hyd 31 Rhagfyr 2009)*, Yr Athro Syr Brian Smith, Yr Athro Robin Williams (Cadeirydd) *(o 4 Ionawr 2010)*
Archwilio a risg	Mr David Allen (Cadeirydd), Yr Athro Anthony Hazell *(hyd 31 Mai 2009)*, Mr Kenneth Richards *(hyd 31 Rhagfyr 2009)*
Ailgyflunio a chydweithio	Y Fonesig Alexandra Burslem (Cadeirydd), Yr Athro Garel Rhys *(hyd 31 Rhagfyr 2009)*, Yr Athro Syr Brian Smith, Yr Athro Philip Gummett
Adnoddau dynol	Yr Athro Anthony Hazell (Cadeirydd) *(hyd 31 Mai 2009)*, Y Fonesig Alexandra Burslem (Cadeirydd) *(o 1 Mehefin 2009)*
Tâl	Mr Roger Thomas (Cadeirydd), Yr Athro Anthony Hazell *(hyd 31 Mai 2009)*, Y Fonesig Alexandra Burslem
Penodiadau	Mr Roger Thomas (Cadeirydd), Yr Athro Anthony Hazell *(hyd 31 Mai 2009)*, Mr David Allen, Y Fonesig Alexandra Burslem, Yr Athro Katherine Oglesby, Yr Athro Garel Rhys *(hyd 31 Rhagfyr 2009)*, Yr Athro Robin Williams (o 1 Awst 2009), Yr Athro Philip Gummett

Archwilwyr

Roedd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon blynyddol llawn CCAUC am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 yn ddiamod.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y datganiadau ariannol cryno.

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sydd i'w cael ar dudalennau 45-48.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw nodi fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r cyfrifon statudol. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried goblygiadau fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 1999/6 'The auditors' statement on the summary financial statement' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â chyfrifon statudol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Gillian Body
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
9 Gorffennaf 2010

Datganiad cryno ar wariant net cynhwysfawr
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

	2010		2009	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant				
Cyllido addysg uwch:				
Gwariant rheolaidd	437,742		412,954	
Gwariant cyfalaf	24,284		21,854	
Dibenion eraill	22,128		23,745	
	484,154		458,553	
Gwariant y Cyngor:				
Costau staff	2,243		2,196	
Dibrisiant	85		85	
Amorteiddiad	1		-	
Gwariant arall	645		791	
	2,974		3,072	
Cyfanswm gwariant		**487,128**		**461,625**
Incwm				
Incwm o weithgareddau		11,935		7,535
Costau gweithredol net		**(475,193)**		**(454,090)**
Cost cyfalaf		(167)		(202)
Llog y gellir ei dderbyn		3		268
Adfeddiannau		(3)		(268)
Costau gweithredol net ar ôl tâl cost cyfalaf a llog wedi'u trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol		(475,360)		(454,292)

Datganiad cryno ar y sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2010

	Ar 31 Mawrth 2010	Ar 31 Mawrth 2009	Ar 31 Ebrill 2008
	£'000	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	166	201	246
Asedau anghyffyrddadwy	–	1	–
Cyfanswm asedau anghyfredol	**166**	**202**	**246**
Asedau cyfredol			
Masnach a symiau eraill y gellir eu derbyn	820	212	844
Arian a chyfwerthoedd arian	4,360	5,625	6,001
Cyfanswm asedau cyfredol	**5,180**	**5,837**	**6,845**
Cyfanswm asedau	**5,346**	**6,039**	**7,091**
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau eraill y gellir eu talu	(1,000)	(796)	(769)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau o fewn un flwyddyn	(7)	–	–
Cyfanswm asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net	**4,339**	**5,243**	**6,322**
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ôl un flwyddyn	(24)	–	–
Asedau tynnu rhwymedigaethau	**4,315**	**5,243**	**6,322**
Cronfeydd			
Cronfa gyffredinol	4,315	5,243	6,322
	4,315	5,243	6,322

Datganiad cryno ar lifoedd arian
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

	2010	2009
	£'000	£'000
All-lifoedd arian parod net o weithgareddau gweithredol	(475,480)	(453,346)
Llifoedd arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	–	–
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	(50)	(41)
Llifoedd arian parod net o weithgareddau ariannu	474,265	453,011
Gostyngiad net mewn arian parod	(1,265)	(376)

Datganiadau ar newidiadau mewn cronfeydd
am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2010

	Cronfa gyffredinol
	£'000
Gweddill ar 1 Ebrill 2009	**5,243**
Newidiadau mewn cronfeydd 2009-10	
Costau gweithredol net	(475,360)
Taliadau heb fod yn arian parod – cost cyfalaf	167
Cyfanswm incwm a threuliau cydnabyddedig ar gyfer 2009-10	**(475,193)**
Cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	474,265
Gweddill ar 31 Mawrth 2010	**4,315**

Nodiadau

1. Sail y paratoi
Paratowyd y datganiadau ariannol cryno o dan y confensiwn cost hanesyddol, gan gyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 1985, a chan gymryd i ystyriaeth Reoliadau Cwmnïau (Datganiad Ariannol Cryno) 1995 (Offeryn Statudol 1995/2092) i'r graddau y maent yn berthnasol, a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009-10, ac maent yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

2. Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf
Mae cyfrifon 2009-10 yn cynrychioli'r set gyntaf o gyfrifon blynyddol i gael eu paratoi o dan y sail gyfrifydda IFRS, gan ddisodli'r sail UK GAAP flaenorol. Nid yw'r newid hwn yn y sail gyfrifydda wedi arwain at unrhyw addasiadau yn y ffigurau a ddangosir yn naill ai'r Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr na'r Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, ar gyfer 2008-09.



Yr Athro Philip Gummett
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo
2 Gorffennaf 2010